
Estyn


estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Crynodeb o'r canfyddiadau yn ein hadroddiadau thematig cenedlaethol

ar gyfer 2016





**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Rhagair

Rwy'n gobeithio y bydd y crynodeb hwn, a'r gyfres lawn o adroddiadau y'i seiliwyd arnynt, yn addysgiadol ac yn berthnasol.  Mae adroddiadau thematig Estyn yn 2016 yn cwmpasu ystod o agweddau pwysig ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Maent yn adrodd ar safonau a darpariaeth ar draws ystod o sectorau a themâu addysg, gan gynnwys ieithoedd tramor modern, dilysu a chymedroli asesiadau athrawon, yn ogystal ag adolygiadau cenedlaethol o ansawdd addysg a hyfforddiant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion, a dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae Estyn yn cydweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth Cymru i gynllunio'r rhaglen o adroddiadau thematig y gofynnir amdanynt yn y llythyr cylch gwaith blynyddol i PAEM gan Ysgrifennydd y Cabinet.  Mae'r rhaglen hon yn ystyried blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ac, eleni, roedd yn cynnwys arolygon ag astudiaethau achos o arfer mewn datblygu cyfranogiad disgyblion, arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd, a chelfyddydau creadigol mewn ysgolion uwchradd.

Mae adroddiadau thematig Estyn yn mynd i'r afael â materion sydd o bryder canolog i'r rhai sy'n llunio polisïau.  Yn 2016, gwnaethom gyhoeddi tri arolwg yn ymwneud â chynnydd grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed: mapio darpariaeth y dysgwyr hynny sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol, codi dyheadau a chyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn gofal, a chynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol.

Bwriad ein hadroddiadau yw cyfrannu at feddwl ehangach a thrafodaethau cyfredol mewn meysydd polisi fel cynllunio ar gyfer y cwricwlwm 3-16 newydd, yn ogystal â rhannu astudiaethau achos o arfer ar draws pob sector.  Mae'r rhaglen o adroddiadau thematig sydd i ddod yn 2017 yn argoeli i fod yr un mor berthnasol, ac mae adolygiadau yn mynd rhagddynt sy'n canolbwyntio ar feysydd y cwricwlwm, fel gwyddoniaeth, a dylunio a thechnoleg yng nghyfnod allweddol 2, y dyniaethau yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, yn ogystal â phynciau ar gydberthnasoedd iach, addysg ariannol, a chwarae a dysgu gweithredol ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

Rydym yn gobeithio y caiff ein hadroddiadau thematig eu defnyddio'n eang gan ddarparwyr i wella eu harfer a gwella deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru.  Mae'r crynodeb hwn o'r holl adroddiadau thematig a gyhoeddwyd hyd yn hyn eleni yn dod â'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion o bob adroddiad ynghyd, er mwyn i chi allu cyfeirio atynt yn hawdd.  Mae'r adroddiadau llawn, gan gynnwys astudiaethau achos, ar gael ar ein gwefan: [http://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig](http://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig)

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Effaith y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (Teach First) yng Nghymru** | **1** |
| **Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol** | **3** |
| **Ansawdd addysg a hyfforddiant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion** | **7** |
| **Addysg heblaw yn yr ysgol** | **10** |
| **Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal – Adroddiad arfer orau** | **15** |
| **Ieithoedd Tramor Modern** | **20** |
| **Arfer orau yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4** | **24** |
| **Cymedroli asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3: adolygiad o gywirdeb a chysondeb** | **30** |
| **Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd** | **32** |
| **Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol** | **37** |
| **Dysgu Oedolion yn y Gymuned** | **42** |
| **Cyfranogiad disgyblion: canllaw arfer orau** | **44** |

# Teitl: Effaith y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (Teach First) yng Nghymru

## Prif ganfyddiadau

1 Mae tua hanner cyfranogwyr y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (RhHYR) yn cyflawni safonau da, ac mae rhai ohonynt yn cyflawni safonau rhagorol. Mae llawer o gyfranogwyr yn gwneud cynnydd da yn eu haddysgu, ond nid yw digon ohonynt yn cyflawni eu potensial i fod yn athrawon rhagorol. Nid yw rhai cyfranogwyr yn cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, ac nid ydynt yn cyflawni Statws Athro Cymwysedig (SAC).

2 Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn dangos gwerthoedd ac agweddau proffesiynol da iawn ac yn sefydlu perthnasoedd effeithiol gydag athrawon a disgyblion. Maent yn llawn cymhelliant i wella eu haddysgu, yn fyfyriol ac yn creu cysylltiadau gwerthfawr rhwng theori addysgol ac arfer yn yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft, defnyddiant eu hymchwil i fynd i'r afael â thlodi mewn ysgolion i nodi dulliau i gynorthwyo disgyblion dan anfantais.

3 Mae llawer o gyfranogwyr yn gosod disgwyliadau uchel iawn iddyn nhw eu hunain. Mewn lleiafrif o achosion, caiff cyfranogwyr anawsterau yn rheoli terfynau amser ar gyfer cynllunio gwersi ac ar gyfer aseiniadau, ac fe gaiff hyn effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles.

4 Mae gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr wybodaeth bwnc dda, ac mae bron pob un o'r cyfranogwyr yn cynllunio gwersi'n drylwyr. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu sy'n aml yn arloesol. Fodd bynnag, nid yw tua hanner y cyfranogwyr yn rhoi ystyriaeth ddigon gofalus i'r ffordd orau o addysgu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ran eu pwnc.

5 Roedd llawer o'r cyfranogwyr a gyflawnodd SAC mewn swyddi addysgu o hyd ym Medi 2015, ddwy flynedd ar ôl dechrau'r rhaglen RhHYR, ond lleiafrif ohonynt yn unig sy'n addysgu yng Nghymru.

6 Mae'r hyfforddiant yn y brifysgol ('ysgol haf') yn rhoi ystod eang o brofiadau defnyddiol i gyfranogwyr ddechrau datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysgu. Mae aseiniadau ysgrifenedig yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i gyfranogwyr archwilio theori addysgol a chreu cysylltiadau defnyddiol â'u haddysgu. Yn gyffredinol, mae marcio tiwtoriaid yn rhoi adborth ffurfiannol buddiol i gyfranogwyr.

7 Yn yr hyfforddiant yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn cynorthwyo cyfranogwyr i fod yn greadigol yn eu cynllunio. Fodd bynnag, mae tua hanner y mentoriaid yn rhoi adborth i gyfranogwyr ar eu haddysgu sy'n rhy hael neu'n rhy arwynebol ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi i fesur addysgu llwyddiannus. Nid yw'r mentoriaid hyn yn darparu targedau digon heriol ar gyfer cyfranogwyr ac mae hyn yn cyfyngu ar allu cyfranogwyr i gyflawni'n well.

8 Mewn rhai ysgolion, nid oes gan adrannau pwnc y capasiti i gynorthwyo cyfranogwyr yn effeithiol. Yn yr adrannau gwannach hyn, nid yw mentoriaid yn monitro gwaith

disgyblion yn ddigon gofalus. Gan nad ydynt yn nodi gwendidau yn eu harfer eu hunain, ni allant wella agweddau ar addysgu'r cyfranogwyr.

9 Mae cyfranogwyr yn gweld yr ychydig wythnosau cyntaf yn eu hysgolion yn heriol iawn. Mae gormod o amrywioldeb ym mhrofiadau cyntaf cyfranogwyr o addysgu yn eu hysgolion lleoli, ac mae hyn yn golygu nad yw cyfranogwyr yn gwneud digon o gynnydd yn y tymor cyntaf o addysgu. Mae rhai ysgolion wedi datblygu dulliau mentora sy'n cynorthwyo cyfranogwyr yn dda yn ystod yr wythnosau cyntaf wedi iddynt ddechrau ar eu swydd, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder, cynnydd a lles cyfranogwyr.

10 Dywed mwyafrif o ysgolion fod y cyfranogwyr wedi dod â syniadau newydd i'r adran y maent yn gweithio ynddi. Dywed lleiafrif o ysgolion fod eu cyfranogwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau a pherfformiad rhai grwpiau bach o ddisgyblion yn y dosbarthiadau y maent yn eu haddysgu. Mae rhai adrannau wedi gweld bod cyfranogwyr yn herio arfer sefydledig ac yn dod â syniadau newydd i addysgu a chynlluniau gwaith.

11 Mewn mwyafrif o adrannau, lle mae cyfranogwyr wedi addysgu am ddwy flynedd, mae perfformiad disgyblion mewn TGAU wedi gwella. Fodd bynnag, mae'n anodd priodoli'r gwelliannau hyn yn uniongyrchol i bartneriaeth yr ysgol â'r rhaglen RhHYR. Nid yw'r dystiolaeth yn ddigon trylwyr i ddangos bod y rhaglen RhHYR wedi cael effaith gadarnhaol ar ysgolion, adrannau na disgyblion.

12 Mae arweinwyr y rhaglen wedi casglu ystod eang o dystiolaeth i lywio prosesau hunanarfarnu, gan gynnwys barn cyfranogwyr ac ysgolion partner. Mae arweinwyr y rhaglen wedi gwella cyfathrebu ag ysgolion, ac wedi datblygu tîm y rhaglen, cynnwys y rhaglen, a hyfforddiant ac arweiniad i fentoriaid yn dda. Fodd bynnag, nid yw hunanarfarnu yn canolbwyntio'n ddigon da ar hyfforddiant yn yr ysgol, ac mae hyn wedi cyfyngu ar wella asesu mentoriaid. Mae ysgolion yn ansicr ynglŷn â sut i arfarnu effaith y rhaglen RhHYR ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio strategaethau cynaliadwy i wella deilliannau ar gyfer disgyblion.

## Argymhellion

**I gryfhau'r RhHYR a llwybrau eraill i addysgu, dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 Sicrhau bod darparwyr hyfforddiant i athrawon yn helpu hyfforddeion i ddatblygu'r addysgeg fwyaf effeithiol ar gyfer eu pwnc a'u sector

A2 Ystyried strategaethau i wella ansawdd y mentora mewn ysgolion, i alluogi athrawon dan hyfforddiant i wneud cynnydd da a chyflawni eu potensial

A3 Sicrhau bod pob rhaglen ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol yn ystod wythnosau cyntaf yr addysgu

A4 Gwella casglu data mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon i arfarnu effeithiolrwydd rhaglenni hyfforddi

# Teitl: Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol

## Prif ganfyddiadau

1 Mae yna chwe choleg arbenigol annibynnol (CAAau) yng Nghymru sy'n darparu addysg i ddysgwyr o 16 oed sydd ag ystod o anawsterau ac anableddau dysgu. Caiff lleoliadau addysgol dysgwyr mewn CAAau eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

2 Mewn pedwar o'r chwe CAA, caiff asesiad cyn mynediad dysgwyr ei ddiffinio'n dda gyda nodau ac amcanion clir. Mae'r asesiadau'n bwrpasol gyda ffocws cryf ar wneud yn siŵr mai'r ddarpariaeth fydd y lleoliad gorau ar gyfer y dysgwr. Mae pedwar CAA yn rhestru'n glir y wybodaeth sydd ei hangen arnynt cyn lleoli'r dysgwr. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i wneud yn siŵr bod cyfleusterau addysg a gofal yn briodol a helpu dysgwyr i ymgynefino'n gyflym. Rhoddir pwyslais cryf ar gael dealltwriaeth drylwyr o unrhyw rwystrau rhag dysgu a'r meysydd dysgu y mae dysgwyr yn eu mwynhau'n benodol hefyd. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw CAAau yn derbyn ystod lawn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt cyn i'r dysgwr ddechrau.

3 Mae pedwar o'r CAAau yn annog dysgwyr i ymweld â'r CAA cyn dechrau eu lleoliad fel rhan o'u hasesiad cyn mynediad a defnyddiant yr ymweliadau i wirio'r wybodaeth y maent wedi'i chasglu yn y gorffennol. Mewn un CAA, mae dysgwyr yn cynnal ymweliad tridiau tra byddant yn aros yn y llety preswyl. Mae'r ymweliad hwn yn cyflawni dibenion gwerthfawr ar gyfer y darparwr ac fe gaiff y dysgwr ei asesu'n ffurfiol gan staff addysg a staff preswyl.

4 Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn defnyddio ystod eang o ddata i fesur cynnydd dysgwyr. Defnyddiant asesiadau cyn mynediad ac asesiadau gwaelodlin o fedrau i fesur cynnydd, ac maent yn cofnodi'r rhain yn dda gan ddefnyddio pecynnau data masnachol. Mae bron pob CAA yn defnyddio'r asesiadau cyn mynediad a gwaelodlin hyn o fedrau i osod targedau ar gynlluniau dysgu unigol (CDUau). Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y CDUau, ar draws bron pob darparwr, yn cynnwys targedau ar gyfer camau bach o ddysgu na ffocws clir ar y gyrchfan a ddymunir gan y dysgwr. Mae staff mewn dau CAA yn defnyddio CDUau dysgwyr yn dda i lywio'r ffordd y maent yn cynllunio a chyflwyno gwersi.

5 Mae pedwar CAA yn gwneud cynnydd da o ran ehangu eu defnydd o ddata. Mae eu data yn mynd y tu hwnt i ennill cymwysterau a chyflawni unedau credyd erbyn hyn, i gynnwys medrau ehangach a chynnydd dysgwyr yn erbyn targedau CDU. Maent yn ychwanegu at yr asesiadau ffurfiol gyda gwybodaeth ac arbenigedd athrawon a rheolwyr gofal. Er enghraifft, maent yn pennu pa mor dda y gall dysgwr ymdopi â hylendid personol neu ddewis beth i'w wisgo i fod yn addas ar gyfer y tywydd. Fodd bynnag, nid yw llawer o CAAau yn gwneud defnydd digonol o arbenigedd staff ac arbenigwyr i bennu mannau cychwyn gwaelodlin dysgwyr mewn meysydd fel cyfathrebu ac ymddygiad.

6 Mae'r colegau sy'n gosod targedau cadarn i ddysgwyr yn meddu ar ddata gwell ar gynnydd dysgwyr hefyd. Mae pedwar CAA yn adolygu cynnydd dysgwyr yn erbyn

targedau CDU o leiaf bob wythnos. Fodd bynnag, mewn dau CAA, nid yw adolygiadau'n ddigon trylwyr, ac mae'n anodd nodi neu fesur cynnydd dysgwyr. Ni all y CAAau hyn goladu digon o wybodaeth i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru chwaith.

7 Un o'r dulliau pwysicaf y mae CAAau yn ei ddefnyddio ar gyfer mesur cynnydd dysgwyr a chipio data yw cynlluniau dysgu unigol (CDUau). Mae'r CDUau mwyaf effeithiol:

- yn gosod cyfeiriad clir i'r dysgwr sy'n ei helpu i symud tuag ei ddyheadau ar gyfer y dyfodol
- yn cynnwys targedau tymor byr, tymor canolig a thymor hir
- yn cynnwys cyrchfan ffafriedig neu debygol y dysgwr
- yn cynllunio camau dysgu byr i'r dysgwr gyflawni canlyniad cadarnhaol
- yn rhoi ystyriaeth dda i ystod lawn y medrau y mae angen i'r dysgwr eu datblygu

8 Mae mwyafrif o CAAau yn cynnig ystod eang o raglenni dysgu, gan gynnwys amaethyddiaeth, garddwriaeth, crefftau pren ac arlwyo. Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn cynllunio rhaglenni dysgu sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion dysgwyr unigol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni hyn yn cynnwys cydbwysedd da rhwng gwaith a gweithgareddau hamdden, ac mae llawer ohonynt yn cynnwys cyfleoedd priodol ar gyfer ymarfer corff. Mae bron pob CAA yn adolygu eu rhaglenni dysgu bob tymor i wneud yn siŵr eu bod yn parhau'n berthnasol i'r dysgwr. Fodd bynnag, nid yw rhaglenni dysgu'n rhoi digon o ystyriaeth i gyrchfannau a ddymunir gan ddysgwyr na chyfleoedd cyflogaeth posibl yn y dyfodol.

9 Yn gyffredinol, nid yw CAAau yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng nifer y cymwysterau y mae dysgwr yn eu dilyn a datblygiad ei fedrau cyffredinol. Mae llawer o CAAau yn dibynnu gormod ar gymwysterau a thystysgrifau dysgu fel ffordd o asesu a mesur cynnydd dysgwyr.

10 Mae pob CAA yn defnyddio ystod o asesiadau gwaelodlin i nodi'r medrau llythrennedd a rhifedd sydd eu hangen ar ddysgwyr i ddatblygu. Defnyddiant yr asesiadau hyn yn dda i osod targedau llythrennedd a rhifedd ar CDUau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn addysgu medrau llythrennedd a rhifedd trwy gyd-destunau y gall y dysgwyr uniaethu â nhw'n hawdd. Fodd bynnag, mae rhai o'r targedau hyn yn rhy gyffredinol. Mae hyn yn golygu eu bod yn anodd i'w cyflawni ac na ellir mesur cynnydd yn unol â nhw yn hawdd. Mewn rhai colegau, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith mewn dosbarthiadau medrau.

11 Mae pob CAA yn cynnwys ffocws clir ar ddatblygu medrau annibyniaeth a medrau bywyd dysgwyr. Gwnânt y gorau o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau cymdeithasol, ac maent yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am feysydd sy'n berthnasol i fyw yn annibynnol fel rheoli eu harian. Fodd bynnag, er bod tystiolaeth anecdotaidd i gefnogi cynnydd dysgwyr yn y meysydd hyn, nid yw CAAau yn gosod targedau, yn asesu cynnydd ac yn cofnodi tystiolaeth o'r dysgu hwn a allai eu helpu i arfarnu effeithiolrwydd eu gwaith a bodloni gofynion Llywodraeth Cymru.

12 Mae llawer o ddysgwyr ar draws pob CAA yn elwa ar gyfleoedd profiad gwaith. Mae'r rhain yn effeithiol o ran helpu dysgwyr i wella'u cyflogadwyedd, eu hunanhyder

a'u hunan-barch. Fodd bynnag, nid yw'r broses i olrhain gwerth profiad gwaith wedi'i datblygu'n ddigonol, ac nid yw llawer o leoliadau gwaith yn ddigon penodol i gyrchfannau a ddymunir gan ddysgwyr.

13 Mae dysgwyr yn symud o CAAau i ystod o gyrchfannau sy'n cynnwys addysg bellach, addysg uwch neu gyflogaeth. Mae rhai ohonynt yn symud i fyw â chymorth neu fyw yn annibynnol. Mae lleiafrif ohonynt, o golegau preswyl, yn symud yn ôl i fyw gyda'u rhieni. Mae'r rhan fwyaf o CAAau yn cynllunio'n dda ar gyfer cyfnod pontio dysgwyr allan o goleg wedi i'w cyrchfan ffafriedig gael ei sefydlu. Fodd bynnag, mae trefniadau ar gyfer pontio o goleg wedi'u seilio'n rhy aml ar yr hyn sydd ar gael yn hytrach nag ar ble byddai'r dysgwr yn dymuno bod.

14 Mewn dau CAA, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni eu dewis cyrchfan. Fodd bynnag, nid oes gan ryw hanner y dysgwyr mewn CAAau nodau cyrchfan cadarn pan fyddant yn dechrau eu cwrs. I leiafrif o ddysgwyr, mae oedi wrth ddod o hyd i leoliad cyrchfan addas. Mae cyfathrebu rhwng rhanddeiliaid yn araf, ac mae oedi'n digwydd lle newidiwyd gweithiwr cymdeithasol neu ble mae dysgwyr o awdurdod lleol gwahanol i safle'r CAA.

**Argymhellion**

**Dylai colegau arbenigol annibynnol:**

A1 Wneud yn siŵr bod yr holl asesiadau cyn mynediad yn berthnasol i ystod lawn anghenion dysgwyr, gan gynnwys cyfathrebu ac ymddygiad

A2 Gwneud yn siŵr bod pob CAA:

- yn cydnabod cyrchfan a ddymunir gan ddysgwyr
- yn nodi'n fras dargedau tymor byr, tymor canolig a thymor hir ac yn amlinellu cynlluniau i gyflawni'r targedau hyn
- yn cael ei adolygu'n rheolaidd

A3 Datblygu prosesau clir i osod targedau, ac asesu, olrhain, monitro ac arfarnu cynnydd dysgwyr mewn medrau annibyniaeth

A4 Datblygu prosesau i fesur gwerth a deilliannau profiad gwaith

A5 Lleihau'r ddibyniaeth ar daflenni gwaith generig i addysgu medrau llythrennedd a rhifedd

**Dylai awdurdodau lleol:**

A6 Gydlynu'r wybodaeth sy'n mynd gyda dysgwyr rhwng darparwyr ac ar gyfnodau pontio

A7 Gwneud yn siŵr bod cynlluniau a phrosesau ar gyfer cyrchfannau dysgwyr y tu hwnt i'r CAA ar waith yn ddigon cynnar i gael canlyniad cadarnhaol a chyfnod pontio didrafferth

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Adolygu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan CAAau i wneud yn siŵr ei bod yn glir a phenodol ac yn cynnwys ffocws ar gynnydd dysgwyr a chyrchfan a ddymunir gan y dysgwr, yn ogystal ag ennill cymwysterau

## Teitl: Ansawdd addysg a hyfforddiant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion

### Prif ganfyddiadau

1 Bu cynnydd yn niferoedd y dysgwyr sy’n cael hyfforddiant ar gyfer gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol oedolion mewn darparwyr Dysgu yn y Gwaith ac AB. Fodd bynnag, mae darlun amrywiol o gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo ar draws y lefelau diploma yn y ddau fath o ddarparwr.

2 Mae dilyniant dysgwyr trwy lefelau cymhwyster yn ddibynnol ar natur rolau swydd a pharodrwydd cyflogwr i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gael profiad, cael hyfforddiant a dysgu, a chael eu hasesu ar gyfer cymhwyster uwch. Gan fod rôl gweithiwr gofal yn brysur a heriol, nid yw amgylchiadau yn y gwaith yn aml yn ffafriol i hyfforddiant ychwanegol, ac o ganlyniad, mae dilyniant yn aml yn anodd.

3 Mae’r rhan fwyaf o ddarparwyr yn gweithio’n dda gyda chyflogwyr i sicrhau bod addysgu’n digwydd ar adegau sy’n gyfleus i’r cyflogwr a’r dysgwr fel ei gilydd. Yn yr achosion gorau, caiff anghenion dysgwyr eu bodloni orau gan ddulliau hyblyg o gyflwyno ac asesu, fel ymweliadau gyda’r nos ac ar benwythnosau gan aseswyr sy’n addasu yn ôl patrymau sifft.

4 Mae addysgu dulliau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ar bob lefel yn aneffeithiol yn y mwyafrif o achosion. Mae safon gwaith dysgwyr yn eu portffolios yn rhy amrywiol, a dim ond mewn ffordd aneglur y gall dysgwyr ar bob lefel ddisgrifio dulliau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn a’i werth mewn lleoliad gofal. Ni all tua hanner y dysgwyr roi diffiniad gwybodus o ddulliau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn eu portffolios neu pan gânt eu holi, er bod aseswyr wedi cymeradwyo bod yr uned yn dderbyniol.

5 Mae angen lefel dda o fedrau llythrennedd a rhifedd ar staff sy’n gweithio mewn lleoliadau gofal er mwyn deall a chyfleu cyfarwyddiadau, ysgrifennu adroddiadau a rhoi meddyginiaeth. Mae angen iddynt gyfathrebu’n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig â chydweithwyr a phobl sy’n derbyn gofal hefyd.

6 Mae darparwyr yn cynnal asesiad cychwynnol o fedrau llythrennedd a rhifedd ar gyfer pob dysgwr sy’n astudio am fwy na phum awr yr wythnos. Rhoddir cymorth arbenigol ychwanegol i ddysgwyr o bryd i’w gilydd, ond mae’r ffordd y mae aseswyr yn cywiro camgymeriadau gramadegol mewn gwaith cwrs yn anghyson, ac yn aml, maent yn colli cyfleoedd i ddefnyddio’r enghreifftiau ysgrifenedig hyn i helpu dysgwyr i wella’u medrau llythrennedd. Mewn rhai achosion, nid yw aseswyr yn meddu ar lefelau digon da o fedrau llythrennedd a rhifedd eu hunain. Er bod llawer o ddysgwyr ar lefel 5 yn meddu ar fedrau ymarferol da iawn, mae asesiadau cychwynnol yn dangos bod eu lefelau llythrennedd a rhifedd yn rhy isel iddynt ymgymryd â rolau rheoli yn effeithiol.

7 Mae darparwyr yn defnyddio ystod eang o ddulliau i asesu medrau technegol, cynorthwyo pob unigolyn a bodloni eu hanghenion unigol. Mewn rhai achosion, nid yw’r asesydd yn holi mewn ffordd ddigon trylwyr i sicrhau bod gan ddysgwyr

ddealltwriaeth dda o wybodaeth sylfaenol. Mewn rhai achosion, mae aseswyr yn annog pobl i gymryd rhan mewn rhoi adborth i ddysgwyr. Wedyn, defnyddiant yr adborth hwn i gefnogi asesu a chynllunio rhagor o hyfforddiant ar gyfer y dysgwr.

8 Ar draws yr holl ddarparwyr SAB a DYYG yr ymwelwyd â nhw, roedd safon y gwaith a arsylwyd mewn portffolios yn amrywio gormod. Mae adborth ysgrifenedig gan aseswyr ym mhortffolios dysgwyr yn rhy amrywiol.

9 Mewn Dysgu yn y Gwaith, mae llawer o aseswyr yn ymweld â dysgwyr yn rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad â'u dysgwyr rhwng ymweliadau trwy negeseuon testun, negeseuon e-bost a dros y ffôn. Mae rhai ymweliadau'n canolbwyntio gormod ar gwblhau gwaith papur Dysgu yn y Gwaith, derbyn gwaith ysgrifenedig a gosod targedau ar gyfer yr ymweliad nesaf. Yn yr achosion hyn, nid oes digon o drafod na phrofi gwybodaeth.

10 Mae mwyafrif y darparwyr yn hyrwyddo medrau Cymraeg a'i diwylliant mewn modd cadarnhaol. Caiff dysgwyr sy'n siarad Cymraeg eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad â defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg mamiaith, ond nid oes dull cyson. Ni chaiff unrhyw ddata ei gasglu na'i ddadansoddi am nifer y dysgwyr sy'n hyfforddi yn Gymraeg na thystiolaeth o effaith hyn ar y gweithlu. Cynigir cyfle i fwyafrif y dysgwyr naill ai ddilyn eu diploma yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg neu i gwblhau eu hyfforddiant a'u portffolios yn Saesneg, ond yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn gwirionedd, nid yw'r dewisiadau hyn bob amser yn bosibl oherwydd y diffyg deunyddiau Cymraeg a thiwtoriaid ac aseswyr sy'n siarad Cymraeg.

11 Yn gyffredinol, mae cyflogwyr yn hapus â gwybodaeth a gallu hyfforddwyr ac aseswyr o ddarparwyr SAB a DYYG pan fyddant yn cyflwyno cymwysterau lefel 2 a lefel 3. Fodd bynnag, mewn rhai o'r cartrefi gofal yr ymwelwyd â nhw, cwynodd rheolwyr fod lefel wael gwybodaeth hyfforddwyr ac aseswyr yn cyfrannu at dderbyn safonau isel wrth arsylwi ac asesu gwaith dysgwyr.

12 Ar lefel 5, ceir rhai enghreifftiau o hyfforddiant gwael a gwybodaeth wael aseswyr. Mewn rhai achosion, mae cymwysterau aseswyr ar lefel islaw'r cymhwyster y maent yn helpu dysgwyr i'w gyflawni.

13 Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio cyllidebau datblygu staff a chynlluniau datblygu'r gweithlu yn dda i sicrhau bod hyfforddwyr ac aseswyr ar gyfer lefel 2 a lefel 3 yn gymwys i'r lefel briodol. Pan fydd staff darparwyr hefyd yn gweithio yn y sector, mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio gwybodaeth a phrofiad diweddar o'r staff hyn yn effeithiol yn ystod digwyddiadau hyfforddiant mewn swydd. Fodd bynnag, nid yw rhai aseswyr ar gyfer cyrsiau lefel 5 wedi cael yr hyfforddiant na'r profiad perthnasol.

14 Mae beichiau achos ar gyfer aseswyr yn amrywio'n fawr a gall hyn arwain at ymweld â dysgwyr yn anaml. Mae ymweliadau mor anaml yn golygu nad yw dysgwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd yn eu dysgu. Mae nifer sylweddol o aseswyr yn credu bod eu beichiau achos yn rhy fawr a'u bod dan bwysau gan ddarparwyr i gwblhau cymwysterau gyda'u dysgwyr mewn cyfnod mor fyr â phosibl.

15 Mewn llawer o achosion, nid yw cytundebau lefel gwasanaeth rhwng y dysgwr, yr asesydd a'r cyflogwr yn effeithiol, ac nid yw darparwyr yn manteisio ar fedrau a phrofiad cyflogwyr nac yn cynnwys cyflogwyr yn ddigon agos â'r dysgu a'r asesu yn y gwaith.

**Argymhellion**

**Dylai darparwyr:**

A1 Gwella dealltwriaeth dysgwyr o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac addysgu ac asesu'r dulliau hyn

A2 Gwella llythrennedd a rhifedd dysgwyr a'r cymorth, yr asesu a'r cynlluniau gweithredu ar gyfer y medrau hyn

A3 Sicrhau bod gan aseswyr feichiau gwaith hylaw fel bod eu hymweliadau â hyfforddeion yn digwydd yn ddigon aml a'u bod yn ddigon hir

A4 Gwneud yn siŵr bod aseswyr yn meddu ar wybodaeth a medrau ar lefelau addas i gynorthwyo dysgwyr yn llawn

A5 Gwella cytundebau lefel gwasanaeth gyda chyflogwyr, a chynnwys cyflogwyr yn fwy mewn hyfforddi ac asesu dysgwyr

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A6 Cynorthwyo darparwyr i wella arferion asesu a hyfforddiant a chymhwysedd aseswyr trwy weithio gyda chyflogwyr, Cyngor y Gweithlu Addysg, ColegauCymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i ddarparu digwyddiadau datblygiad proffesiynol

A7 Gwella'r drefn ar gyfer casglu data ar gyrchfan dysgwyr

# Teitl: Addysg heblaw yn yr ysgol

## Prif ganfyddiadau

1 Ar y cyfan, nid yw disgyblion mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu manteisio'n gyfartal ar eu hawl i addysg o gymharu â'u cymheiriaid. Mae'n rhaid i leiafrif o ddisgyblion aros dros 15 diwrnod i gael at ddarpariaeth, maent yn cael cwricwlwm cyfyngedig neu maent yn dilyn cyrsiau nad ydynt yn ddigon heriol.

2 Fel arfer, nid yw disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu cael at gwricwlwm teg a chytbwys sy'n eu galluogi i ennill cymwysterau sy'n bodloni eu hanghenion a'u potensial. Dim ond ychydig bach iawn o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc. Mae diffyg adnoddau a chyfleusterau ar gyfer pynciau fel gwyddoniaeth yn cyfyngu'r cwricwlwm i ormod o lawer o'r disgyblion hyn. Mae'r diffyg hwn yn golygu bod disgyblion yn colli allan ar agweddau pwysig ar addysg, sy'n gallu effeithio ar eu cyfleoedd am waith a hyfforddiant yn y dyfodol.

3 Nid yw disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cael yr addysg amser llawn (25 awr yr wythnos, fel arfer) y mae hawl ganddynt ei chael. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y mae awdurdodau lleol yn darparu addysg yn y cartref iddynt yn cael addysg am uchafswm o 10 awr yr wythnos. Byddant wedyn yn dilyn cwricwlwm cyfyngedig gan nad oes digon o amser i addysgu holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae llawer o'r disgyblion hyn wedi cael cyfnodau estynedig o ymyrraeth yn yr ysgol a chefnogaeth drwy Raglen Cymorth Bugeiliol i'w helpu i reoli eu hymddygiad.

4 Mae disgyblion sydd wedi bod yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn flaenorol yn cael cyfleoedd cyfyngedig iawn i barhau â'u dysgu yn Gymraeg pan fyddant yn dechrau addysg heblaw yn yr ysgol. Pan fydd darparwyr yn recriwtio staff i weithio gyda'r disgyblion hyn, nid ydynt bob amser yn recriwtio athrawon cymwys.

5 Yn aml, nid yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cymorth arbenigol y mae arnynt ei angen, hyd yn oed pan fydd hyn wedi'i amlinellu mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid ydynt yn cael y cymorth amlasiantaeth arbenigol y mae ei angen arnynt yn gyson.

6 Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn parhau i'w chael am weddill eu cyfnod yn yr ysgol. Anaml iawn y byddant yn ailintegreiddio i'r ysgol.

7 I lawer o ddisgyblion, mae addysg heblaw yn yr ysgol yn rhoi ail gyfle iddynt lwyddo. Mae presenoldeb llawer o ddisgyblion yn gwella ac mae ganddynt fwy o symbyliad i ddysgu gan eu bod yn cael profiadau dysgu diddorol.

8 Mae llawer o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn astudio cyrsiau galwedigaethol. Mae'r profiadau hyn yn aml yn symbylu disgyblion i wneud yn dda. Dysgant y medrau y mae eu hangen i fanteisio ar hyfforddiant neu waith pellach. Maent yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'r maes gwaith y dymunant ei ddilyn.

9 Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu perthynas dda â staff. Gwerthfawrogant fod staff yn deall yr anawsterau y maent yn eu cael. Gydag amser, mae'r berthynas hon yn helpu i gynorthwyo disgyblion i wella'u hymddygiad.

10 Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n parhau i fod yn ffrindiau gyda disgyblion o'u hysgolion prif ffrwd. Datblygant ffrindiau newydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol ond, yn aml, nid yw'r disgyblion hyn yn byw gerllaw ac mae'n anodd cwrdd â nhw y tu allan i amser ysgol.

11 Mae bron bob un o'r awdurdodau lleol yn cael anawsterau wrth sicrhau bod disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu manteisio ar arbenigedd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Nid yw staff yn cael y cyngor a'r arweiniad arbenigol y mae eu hangen arnynt i gefnogi anghenion disgyblion.

12 Ar y cyfan, nid yw prosesau cyfeirio awdurdodau lleol er mwyn i ddysgwyr gael at addysg heblaw yn yr ysgol yn glir nac wedi'u deall yn dda. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, nid yw'r prosesau hyn yn sicrhau bod gwybodaeth asesu a gwybodaeth arall yn cael ei throsglwyddo'n brydlon o'r ysgol i'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol.

13 Ar draws Cymru, mae diffyg dealltwriaeth o'r gofynion cofrestru ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Mae nifer bach iawn o benaethiaid, sydd â disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol ym Mlwyddyn 11, yn tynnu eu henw o gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr. Mae hyn yn golygu bod cyrhaeddiad y disgyblion hyn, nad yw'n cyd-fynd â chyflawniad eu cyfoedion yn aml, yn cyfrif yn nata perfformiad yr ysgol. Mae eu hawdurdodau lleol yn cymeradwyo'r arfer hon.

14 Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn monitro nac yn goruchwylio addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth amgen yn ddigon trylwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddant yn gwybod faint o ddisgyblion sy'n derbyn yr addysg heblaw yn yr ysgol y maent yn ei darparu neu'n ei chomisiynu gan ddarparwyr annibynnol. Nifer bach iawn sy'n gwybod faint o ddisgyblion eraill sydd hefyd yn manteisio ar ddarpariaeth amgen amser llawn oddi ar y safle, yn aml yn yr un darparwyr, ond wedi'i chomisiynu'n uniongyrchol gan ysgolion.

15 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn casglu data ar y cymwysterau y mae disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn eu hennill. Dim ond lleiafrif o awdurdodau lleol sy'n monitro ac arfarnu cynnydd disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Ar y cyfan, nid yw awdurdodau lleol yn olrhain cynnydd parhaus disgyblion yn ddigon da i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyrraedd eu potensial. Maent yn monitro presenoldeb ac ymddygiad, ond nid ydynt yn cadw cofnod o anghenion dysgu disgyblion na'u cynnydd yn erbyn targedau dysgu. Mewn ychydig achosion, nid yw gweithdrefnau i olrhain prydlondeb a phresenoldeb dyddiol disgyblion ac i sicrhau diogelwch disgyblion yn cael eu dilyn.

16 Ychydig bach iawn o athrawon addysg heblaw yn yr ysgol, yn enwedig y rhai a gyflogir gan ddarparwyr annibynnol, sy'n gallu manteisio ar hyfforddiant a chymorth a fyddai'n sicrhau eu bod yn gwybod am yr arfer ddiweddaraf a gofynion diweddaraf y

cwricwlwm. Fel arfer, ni wyddant ble i droi er mwyn cael y cyngor gorau neu weld arfer dda. Nid yw awdurdodau lleol yn annog eu hathrawon arbenigol a'u seicolegwyr addysg i rannu eu harbenigedd â darparwyr annibynnol addysg heblaw yn yr ysgol.

17 Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr annibynnol darpariaeth amser llawn i 5 disgybl neu fwy, ac un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig, gofrestru'n ysgolion annibynnol. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn comisiynu addysg amser llawn heblaw yn yr ysgol ar gyfer grwpiau mawr o ddisgyblion, gan ddarparwyr sydd heb gofrestru'n ysgolion annibynnol. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw yn cynnal UCDau heb eu cofrestru. Maent yn gweithredu canolfannau addysg a chanolfannau eraill heb eu cofrestru i ddarparu addysg am hyd at 25 awr yr wythnos.

18 Nid yw aelodau etholedig yn gwybod am bob agwedd ar addysg heblaw yn yr ysgol y maent yn gyfrifol amdanynt. Maent yn sicr ynghylch pa mor dda yw cynnydd disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol na faint mae'r awdurdod lleol yn ei wario ar addysg heblaw yn yr ysgol. Nid ydynt yn gwybod a yw disgyblion a gafodd addysg heblaw yn yr ysgol yn mynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn golygu na allant farnu p'un a yw'r addysg a ddarparant heblaw yn yr ysgol yn effeithiol neu'n rhoi gwerth am arian.

**Argymhellion**

**The Welsh Government should:**

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 Gryfhau'r arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion ynghylch y gofyniad i:

- hysbysu Llywodraeth Cymru am yr holl addysg heblaw yn yr ysgol y maent yn ei darparu neu ei chomisiynu, gan gynnwys canolfannau addysgu, UCDau a darpariaeth annibynnol
- cynnal cofnodion o'r holl ddisgyblion sy'n derbyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, a'r rhai sy'n derbyn darpariaeth amgen a drefnwyd gan ysgolion yn annibynnol ar eu hawdurdod lleol
- cynnal cofnodion o nifer y disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, sy'n mynd ymlaen i beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
- gwella'r gallu i droi at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac asiantaethau arbenigol eraill i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol

A2 Cyhoeddi data cyrhaeddiad a phresenoldeb ar gyfer dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol ar lefel yr awdurdod lleol

A3 Ystyried diwygio'r trothwy i ddarparwyr gofrestru'n ysgolion annibynnol

**Dylai awdurdodau lleol:**

A4 Hysbysu Llywodraeth Cymru am yr holl ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol y maent yn ei darparu neu'n ei chomisiynu

A5 Gwirio'n ofalus statws cofrestru pob darparwr y maent yn eu defnyddio i sicrhau, lle y bo'n briodol, bod y ddarpariaeth y maent yn ei chomisiynu wedi'i chofrestru'n ysgol annibynnol gyda Llywodraeth Cymru

A6 Sicrhau bod ysgolion yn deall gweithdrefnau cyfeirio at addysg heblaw yn yr ysgol a chynnwys y gofyniad bod gwybodaeth asesu a gwybodaeth arall yn trosglwyddo'n brydlon o'r ysgol i'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol

A7 Monitro ansawdd yr holl ddarpariaeth amgen sy'n cael ei darparu neu ei chomisiynu ar gyfer disgyblion yn eu hawdurdod lleol, gan gynnwys darpariaeth wedi'i threfnu gan ysgolion neu drwy Rwydweithiau 14-19

A8 Rhoi addysg addas i ddisgyblion o fewn 15 niwrnod o benderfynu y dylai disgybl gael addysg heblaw yn yr ysgol

A9 Darparu cwricwlwm amser llawn i bob disgybl sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol sy'n bodloni eu hanghenion, yn eu galluogi i gyflawni eu potensial ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hailintegreiddio lle bynnag y bo'n bosibl

A10 Darparu addysg heblaw yn yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion sydd wedi derbyn eu haddysg yn Gymraeg

A11 Bodloni'r gofyniad statudol i sicrhau bod disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig yn cael y cymorth sydd wedi'i gofnodi ar eu datganiad neu eu Cynllun Datblygu Unigol

A12 Rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol am addysg heblaw yn yr ysgol i aelodau etholedig fel y gallant farnu ei heffeithiolrwydd a'i gwerth am arian

**Dylai ysgolion:**

A13 Weithio'n agos gyda'u hawdurdod lleol a rhoi gwybodaeth gynhwysfawr, amserol iddo am yr holl ddisgyblion y mae'r ysgol yn eu cyfeirio am addysg heblaw yn yr ysgol a darpariaeth amgen, gan gynnwys trwy Rwydweithiau 14-19

A14 Gwirio'n ofalus statws cofrestru pob darparwr a ddefnyddiant a chadarnhau a ddylai'r darparwr fod wedi cofrestru os nad ydyw

A15 Sicrhau bod darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol sy'n addysgu disgyblion o'u hysgol yn cael gwybodaeth o ansawdd da am anghenion dysgu ac ymddygiad disgyblion

A16 Cadw mewn cysylltiad â disgyblion o'u hysgol sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, monitro cynnydd y disgybl, gan gynnwys perfformiad academaidd, a'i ailintegreiddio lle bynnag y bo modd

A17 Gweithio'n agos gyda darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol i sicrhau parhad yn y cwricwlwm i ddisgyblion o'u hysgol

## Teitl: Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal – Adroddiad arfer orau

### Prif ganfyddiadau

1 Mae'r ysgolion sydd fwyaf effeithiol o ran cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal yn meddu ar y nodweddion canlynol:

- gweledigaeth a strategaeth glir ar gyfer cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal
- dyheadau uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- aelod o uwch dîm rheoli'r ysgol sydd â chyfrifoldeb am gyflwyno strategaeth yr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- dealltwriaeth glir o anghenion academaidd, cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal
- systemau olrhain cynhwysfawr sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan staff a'u dadansoddi gan yr athro dynodedig
- staff sy'n ymwybodol o'r plant sy'n derbyn gofal, eu hanghenion a pha strategaethau sydd ar gael i'w cynorthwyo
- cymorth cryf ar gyfer plant sy'n cael gofal i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd
- systemau gofal cryf sydd wedi eu teilwra'n dda i anghenion emosiynol plant sy'n derbyn gofal
- cymorth i feithrin gwydnwch, hunan-barch a hyder sydd wedi'i gynllunio ac yn gweddu'n dda i anghenion plant, er enghraifft trwy grwpiau anogaeth
- unigolyn wedi'i enwi sy'n rhoi cymorth fel anogwr dysgu
- darparu cyfle i blant sy'n derbyn gofal gymryd rhan mewn clybiau ar ôl yr ysgol neu weithgareddau allgyrsiol eraill fel teithiau neu brofiad gwaith
- llywodraethwr dynodedig ymroddgar sy'n meddu ar ddealltwriaeth gref o anghenion plant sy'n derbyn gofal
- gwaith targedig gyda gofalwyr i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth yn well i gynorthwyo'r plant y maent yn gofalu amdanynt
- ffocws clir ar ddatblygu medrau bywyd plant sy'n derbyn gofal a chynllunio ar gyfer eu cyfnod pontio a'r adeg pan fyddant yn gadael gofal
- arfarnu eu dulliau'n rheolaidd, gan gynnwys cael adborth gan blant sy'n derbyn gofal, i wella deilliannau a darpariaeth ar gyfer y grŵp hwn ymhellach

2 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae penaethiaid ac uwch arweinwyr yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer eu gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal ac yn creu ethos cefnogol. Maent yn cydnabod y gallai fod angen cymorth ac arweiniad ychwanegol ar y plant hyn i lwyddo, ac yn sicrhau bod mecanweithiau priodol i hyn ddigwydd. Yn yr ysgolion hyn, mae'r uwch dîm rheoli yn cymryd cyfrifoldeb am wella gwaith yr ysgol gyda phlant sy'n derbyn gofal.

3 Nodwedd gref mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yw'r ystod gynhwysfawr o ddulliau a ddefnyddir i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr a rheolwyr yn addasu systemau ysgol gyfan effeithiol i fodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal.

4 Mae llawer o ysgolion yn cydnabod bod angen cymorth emosiynol ac academaidd ychwanegol yn aml ar blant sy'n derbyn gofal, ac maent yn hyblyg o ran darparu'r cymorth ychwanegol hwn, yn enwedig mewn cyfnodau o anhawster personol. Mae gan lawer o ysgolion ffocws penodol ar ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

5 Mae trafodaethau â thiwtoriaid dosbarth, fel gweithgaredd mentora wedi'i gynllunio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn digwydd mewn lleiafrif o ysgolion. Mewn rhai ysgolion, cynhelir sesiynau mentora ffurfiol ar gyfer y disgyblion hyn gydag aelodau o'r uwch dîm rheoli a mentoriaid o'r tu allan i'r ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn effeithiol o ran codi dyheadau ac uchelgeisiau plant sy'n derbyn gofal.

6 Mae gan bob un o'r ysgolion systemau olrhain sy'n ddefnyddiol o ran monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal. Mae'r systemau olrhain hyn yn hynod effeithiol pan fydd pob un o'r staff yn deall a diweddaru gwybodaeth olrhain unigol yn rheolaidd.

7 Mewn llawer o ysgolion, ceir systemau cymorth bugeiliol cryf iawn. Mae'r rhain yn cynnwys aelodau allweddol o staff ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal. Mae ychydig iawn o ysgolion yn neilltuo anogwyr dysgu i ddisgyblion ar gyfer eu cyfnod yn yr ysgol. Yn aml iawn, yr aelodau hyn o staff yw'r bobl gyntaf y bydd plant sy'n derbyn gofal yn troi atynt pan fydd angen cyngor, cymorth neu gysur arnynt.

8 Mae lleiafrif o ysgolion wedi sefydlu grwpiau anogaeth i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal. Trwy waith mewn grwpiau addysgu bach a strwythuredig, mae grwpiau anogaeth yn galluogi disgyblion i feithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth gyda staff addysgu a datblygu'r medrau a'r ymddygiadau cymdeithasol sydd eu hangen arnynt i ddysgu'n effeithiol mewn dosbarthiadau mwy. Pan fo grwpiau anogaeth yn bodoli, mae disgyblion sy'n derbyn gofal yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gwella'r modd y maent yn ymgysylltu â staff a disgyblion eraill.

9 Mae lleiafrif o ysgolion wedi sefydlu clybiau ar ôl yr ysgol yn benodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Yn y clybiau, gallai disgyblion gael cymorth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd neu ddefnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn yr enghreifftiau gorau, mae gweithgareddau allgyrsiol hefyd yn helpu plant sy'n derbyn gofal i ddatblygu eu hannibyniaeth a pharatoi ar gyfer gadael gofal. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn clybiau ar ôl yr ysgol yn rhy gyfyngedig ledled Cymru.

10 Mae llawer o ysgolion yn cynnal hyfforddiant blynyddol ar gyfer staff ar grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn defnyddio sesiynau hyfforddi'n ddigon da i godi ymwybyddiaeth staff am brofiadau plentyndod nodweddiadol plant sy'n derbyn gofal a'r modd y gallai'r profiadau hyn effeithio ar eu hymddygiad a'u hagwedd at ddysgu.

11 Mewn tua hanner yr ysgolion, mae penaethiaid yn darparu adroddiadau clir i lywodraethwyr ar effaith eu gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal. Mae lleiafrif o ysgolion yn elwa ar ymroddiad personol, profiad a gwybodaeth ehangach y llywodraethwr dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ei rôl. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd cyrff llywodraethol o ran darparu her addas a phriodol i benaethiaid yn amrywio gormod ledled Cymru.

12 Mewn llawer o ysgolion, caiff plant sy'n derbyn gofal ystod eang o gyfleoedd i fynegi eu safbwyntiau am eu hysgol. Mae mwyafrif yr ysgolion yn defnyddio adborth gan ddysgwyr yn dda, ynghyd ag ystod o wybodaeth, i arfarnu eu gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal. Mae lleiafrif o ysgolion yn cynnal digwyddiadau ymgynghori rheolaidd rhwng y disgybl a'r athro ac mae ychydig iawn o ysgolion yn gofyn yn eglur am safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal i lywio cynllun datblygu'r ysgol.

13 Mae bron pob un o'r ysgolion yn meithrin perthnasoedd effeithiol gyda gofalwyr maeth. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi penodi swyddogion ymgysylltu â theuluoedd sy'n rhoi cymorth uniongyrchol i ofalwyr maeth. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer eu gofalwyr i gyfoethogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ba mor agored i niwed yn gymdeithasol ac yn emosiynol yw plant sy'n derbyn gofal.

14 Roedd yr holl ysgolion yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn benodol ac yn briodol i fynd i'r afael ag anghenion emosiynol ac academaidd plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid yw llawer o ysgolion yn ymwybodol o'r blaenoriaethau yng nghynlluniau gwariant rhanbarthol eu consortiwm ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Nid yw Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi sicrhau bod y cynlluniau hyn yn bodloni anghenion cymhleth plant sy'n derbyn gofal yn ddigon da.

15 Mae'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol sydd fwyaf effeithiol wrth godi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yn meddu ar y nodweddion canlynol:

- uwch reolwyr ac aelodau etholedig sy'n deall anghenion penodol plant sy'n derbyn gofal yn eu hardal, eu cyfrifoldebau eu hunain a'r strategaeth leol i gefnogi'r grŵp hwn
- cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal sy'n darparu arweinyddiaeth gref i ysgolion ac yn hwyluso cydweithio rhwng ysgolion, yr adran addysg a gwasanaethau cymdeithasol
- dull rhagweithiol o chwilio am arfer orau, a'i rhannu, mewn perthynas â'r modd y mae ysgolion yn cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal
- systemau olrhain cadarn, a ddefnyddir yn dda i gefnogi craffu agos ar effeithiolrwydd gwaith yr awdurdod lleol gydag ysgolion i wella cyrhaeddiad, cyflawniad ac uchelgais plant sy'n derbyn gofal
- hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer staff a gofalwyr ysgol i'w helpu i ddeall a chefnogi anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal
- dealltwriaeth ar y cyd o flaenoriaethau rhanbarthol, lleol a chenedlaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a chyfatebiaeth rhyngddynt
- cynlluniau addysg personol o ansawdd uchel sy'n cael eu datblygu ar y cyd ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau clir, gan gynnwys nodau ar gyfer datblygiad personol ac annibyniaeth
- arfarnu eu dulliau'n rheolaidd, gan gynnwys gofyn am adborth gan blant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ac ysgolion, ymhellach i wella deilliannau a darpariaeth ar gyfer y grŵp hwn

16 Mae polisïau'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cysylltu'n dda â pholisïau corfforaethol eraill, fel annog yr holl blant sy'n derbyn gofal i aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid oes gan awdurdodau lleol bolisi ar gyfer plant sy'n derbyn gofal neu nid ydynt yn gosod targedau priodol ar gyfer eu cyrhaeddiad.

17 Ym mhob un o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, ceir cyfathrebu effeithiol trwy adrodd yn flynyddol wrth bwyllgorau craffu a rhanddeiliaid eraill. Ym mwyafrif yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, mae aelodau etholedig wedi cael hyfforddiant mewn agweddau ar ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, fel rhieni corfforaethol, mae eu heffeithiolrwydd o ran codi cyrhaeddiad a chyflawniad plant sy'n derbyn gofal yn rhy amrywiol ledled Cymru. Mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol, nid yw'r strategaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gyfoes ac mae rôl y panel rhianta corfforaethol yn aneglur.

18 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae strategaethau awdurdodau lleol yn canolbwyntio'n gryf ar wella'r modd y mae gwahanol wasanaethau ac ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal. Mae cydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal yn ddolen gyswllt effeithiol rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant. Mae cydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal yn hanfodol i lwyddiant awdurdodau lleol o ran gwella cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal ac mae ansawdd yr arweinyddiaeth a gwaith y cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal yn gryf bron ym mhob awdurdod lleol yr ymwelwyd ag ef. Mae bron yr holl gydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal yn gweithio'n dda gyda gwahanol bartneriaid i sicrhau bod cynlluniau addysg personol yn cael eu llunio o fewn 20 diwrnod. Fodd bynnag, mae ansawdd cynlluniau addysg personol yn amrywio gormod ac nid yw lleiafrif ohonynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddeilliannau nac yn cynnwys targedau ar gyfer datblygiad personol ac annibyniaeth.

19 Mae'r rhan fwyaf o gydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ble mae arfer orau'n bodoli yn eu hardal leol ac yn rhoi cyngor buddiol i ysgolion. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw awdurdodau lleol yn ddigon rhagweithiol o ran arfarnu'r hyn y maent yn ei wneud neu'n ceisio'i wneud ac yn rhannu arfer orau ag ysgolion. Yn ychwanegol, nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn canolbwyntio eu cymorth a'u hyfforddiant ar gyfer ysgolion yn ddigon da ar sut gall ysgolion ddeall a chefnogi yn well anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal.

**Argymhellion**

**Dylai ysgolion:**

A1 Adeiladu ar arfer orau yn unol â nodweddion ysgolion effeithiol a nodwyd yn yr adroddiad hwn

**Dylai awdurdodau lleol:**

A2 Adeiladu ar arfer orau yn unol â nodweddion awdurdodau lleol effeithiol a nodwyd yn yr adroddiad hwn

**Dylai'r consortia rhanbarthol:**

A3 Wella'r modd y maent yn cynllunio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i wneud yn siŵr bod ysgolion yn glir ynglŷn â'r

blaenoriaethau ar gyfer defnyddio'r grant a bod eu cynlluniau'n rhoi digon o ystyriaeth i anghenion cymhleth plant sy'n derbyn gofal

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A4 Ystyried ehangu mesurau perfformiad i gynnwys cynnydd o gymharu â man cychwyn y plant ac yn ymestyn y tu hwnt i oedran ysgol statudol

A5 Gwneud yn siŵr bod cynlluniau gwariant y consortia rhanbarthol yn briodol i angen lleol ac wedi eu seilio ar ddadansoddiad cadarn o anghenion plant sy'n derbyn gofal

# Teitl: Ieithoedd Tramor Modern

## Prif ganfyddiadau

### Cyfnod allweddol 3

1 Yn y gwersi a arsylwyd yng nghyfnod allweddol 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill medrau da yn eu gwaith llafar ac wrth iddynt ddarllen ac ysgrifennu yn yr iaith asesedig. Mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o ramadeg yr iaith asesedig. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â chanfyddiadau Estyn am ddealltwriaeth dysgwyr o ramadeg yn 2009.

2 Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr yn gwneud camgymeriadau mynych â goslef ac ynganiad, yn enwedig wrth ddarllen ar goedd, neu maent yn paratoi sgyrsiau yn ysgrifenedig cyn eu hymarfer fel sgyrsiau llafar. Mae hyn yn amharu ar eu gallu i siarad yr iaith yn rhugl.

3 Mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5) neu'n uwch mewn ieithoedd tramor modern wedi gwella dros y saith mlynedd ddiwethaf, ond mae'n rhy isel o hyd (84%), (Llywodraeth Cymru, 2015b). Hon yw'r lefel perfformiad isaf ond un ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae bechgyn yn perfformio'n waeth na merched mewn ieithoedd tramor modern yn gyffredinol.

### Cyfnod allweddol 4

4 Yn y gwersi a arsylwyd yng nghyfnod allweddol 4, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda ar y cyfan o'r medrau iaith sydd eu hangen ar gyfer arholiadau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i'w cynorthwyo wrth iddynt ddysgu iaith.

5 Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr, hyd yn oed y rhai mwy abl, nad ydynt yn siarad yr iaith yn ddigon rhugl. Yn aml, mae hyn yn digwydd o ganlyniad i'r ffaith fod dysgwyr wedi paratoi ar gyfer arholiad llafar trwy ddysgu paragraffau wedi'u hysgrifennu ar y testunau penodedig ar eu cof.

6 Mae canlyniadau arholiadau ar gyfer y rheiny sy'n dilyn cyrsiau ieithoedd tramor modern TGAU yn dda, (Llywodraeth Cymru, 2015d). Yn 2015, llwyddodd 77% o'r myfyrwyr TGAU mewn ieithoedd tramor modern i gyflawni graddau A*-C. Roedd hyn yn well nag ydoedd yn y rhan fwyaf o bynciau eraill y Cwricwlwm Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2015c).

7 Fodd bynnag, o'r dysgwyr hynny a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 3, 28.2% ohonynt yn unig a aeth ymlaen i ennill o leiaf un cymhwyster TGAU mewn iaith dramor fodern, (Llywodraeth Cymru, 2015c). Mewn TGAU, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched o hyd mewn ieithoedd tramor modern (Llywodraeth Cymru, 2015e).

## Safon Uwch

8 Mae canlyniadau Safon Uwch yn dda mewn ieithoedd tramor modern ac yn cymharu'n dda â'r rheiny mewn pynciau eraill, (Llywodraeth Cymru, 2015d). Yn 2015, llwyddodd 82% o'r myfyrwyr Safon Uwch a safodd arholiadau mewn ieithoedd tramor modern i gael graddau A*-C, (Llywodraeth Cymru, 2015c). Mae'r duedd o ran perfformiad uchel mewn Safon Uwch wedi parhau dros gyfnod.

9 Fodd bynnag, mae'r gostyngiad mewn ymgeisiadau Safon Uwch yn fwy nag ydyw mewn TGAU, (Llywodraeth Cymru, 2015f). Mae nifer y bechgyn sy'n dilyn cymhwyster Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern yn gyfran lai o lawer na nifer y merched, ac mae'r gyfran wedi aros ar lefel debyg dros gyfnod. Yn 2015, dim ond 204 o'r 700 o ymgeisiadau mewn iaith dramor fodern mewn Safon Uwch oedd yn fechgyn (29%). Er 2009, mae'r gyfran hon wedi dangos amrywiadau bach, ond yn gyffredinol, mae wedi parhau ychydig yn is na thraean (Llywodraeth Cymru, heb ei gyhoeddi).

## Addysgu

10 Mae ansawdd yr addysgu mewn llawer o ystafelloedd dosbarth ieithoedd tramor modern yn ddigonol. Mewn rhai achosion, mae'n dda, ac mae'n rhagorol mewn ychydig bach iawn o achosion.

11 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn y gwersi a arsylwyd yn arbenigwyr pwnc sy'n meddu ar gymwysterau priodol i addysgu ieithoedd tramor modern. Maent yn siarad yr ieithoedd y maent yn eu haddysgu gyda rhuglder a chywirdeb da. Nid yw rhai athrawon yn meddu ar amgyffrediad digon cadarn o'r ffordd fwyaf effeithiol o addysgu iaith dramor fodern. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, fel arfer, y rheswm yw eu bod yn addysgu'r iaith dramor fodern fel ail bwnc.

12 Yn gynyddol, mae athrawon yn defnyddio datblygiadau mewn technoleg ddigidol mewn gwersi yn effeithiol. Mewn rhai achosion, mae athrawon yn defnyddio technoleg yn dda i gefnogi tasgau gwaith cartref.

13 Mae'r graddau y mae athrawon yn addysgu trwy gyfrwng yr iaith asesedig wedi dirywio. Mae athrawon yn defnyddio Saesneg i esbonio cyfarwyddiadau ystafell ddosbarth syml yn rhy aml.

14 Mewn llawer o wersi llai effeithiol, mae athrawon yn rhoi lle blaenllaw i ramadeg ar draul dysgwyr yn datblygu medrau allweddol ieithoedd tramor modern, sef siarad a gwrando.

15 Mewn gormod o ystafelloedd dosbarth, mae athrawon yn gofyn i ddisgyblion baratoi sgyrsiau yn ysgrifenedig cyn ymarfer yr iaith lafar. Mae hyn yn rhwystro disgyblion rhag datblygu lefel dda o ruglder yn yr iaith asesedig.

16 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio ac asesu gwaith dysgwyr yn effeithiol yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol wedi dirywio ers adroddiad diwethaf Estyn yn 2009.

## Darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth

17 Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid adran a thimau ieithoedd tramor modern yn rhannu gweledigaeth am y ddarpariaeth yr hoffent ei chynnig ar gyfer ieithoedd tramor modern. Fodd bynnag, yn gynyddol, nid yw llawer ohonynt yn cefnogi hyn trwy bolisi ysgrifenedig sy'n amlinellu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern yn yr ysgol. Mae hyn yn arwain at arfer amrywiol yn yr adran.

18 Ar gyfartaledd, caiff dysgwyr dair awr o ddysgu ieithoedd tramor modern ar draws amserlen o bythefnos. Fodd bynnag, mae hyn yn llai o amser na'r ddwy awr yr wythnos a argymhellwyd yn adroddiad diwethaf Estyn ar ieithoedd tramor modern.

19 Mae gan bron bob adran gwricwlwm cynlluniedig ar gyfer ieithoedd tramor modern sy'n cysylltu'n dda â disgrifwyr lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer y pedwar medr (siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu).

20 Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o adrannau yn unig y mae athrawon yn cynllunio mewn ffyrdd effeithiol i baratoi dysgwyr i ddefnyddio'r iaith asesedig mewn trafodaethau bob dydd yn yr ystafell ddosbarth.

21 Bron ym mhob adran, roedd ystod dda o adnoddau i gefnogi dysgu ieithoedd tramor modern. Mae llawer o athrawon ieithoedd tramor modern yn cynnal gweithgareddau allgyrsiol effeithiol ar gyfer helpu i annog pobl ifanc i ddilyn iaith dramor fodern i lefel arholiad.

22 Mae'r arholiadau sy'n cael eu sefyll gan ddysgwyr mewn ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU neu Safon Uwch yn bennaf. Mae rhai ysgolion yn defnyddio arholiadau eraill i ddarparu ar gyfer dysgwyr a allai fod â medrau cryfach mewn siarad, gwrando a darllen, ond gyda llai o bwyslais ar ysgrifennu. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gymhwyster TGAU sy'n cysylltu dysgu iaith a medrau busnes. Mae llawer o athrawon yn ystyried bod hyn yn fwlch sylweddol, yn enwedig o ran denu disgyblion ehangach eu gallu i astudio iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 4.

23 Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid ac uwch arweinwyr yn arddangos cefnogaeth i roi cyfle i ddysgwyr ddysgu o leiaf un iaith dramor fodern i lefel arholiad. Fodd bynnag, dywed bron pob un ohonynt fod hyn yn heriol, gan fod lle mor flaenllaw yn cael ei roi i'r pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4.

24 Mae strwythur y dewisiadau opsiwn ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn aml yn golygu nad yw dysgwyr yn astudio iaith dramor fodern gan fod y pwnc mewn colofn dewisiadau gyda phwnc arall yr oeddent wir eisiau ei astudio. O ganlyniad, mae nifer fach o ysgolion yng Nghymru lle nad yw dysgwyr yn astudio iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 4.

## Recriwtio athrawon ieithoedd tramor modern

25 Dywed penaethiaid ag adrannau ieithoedd tramor modern sydd ag ychydig iawn o ddysgwyr, os o gwbl, yng nghyfnod allweddol 4 a'r sector ôl-16, a phenaethiaid yng ngorllewin Cymru, ei bod yn aml yn anodd recriwtio athrawon ar gyfer adrannau ieithoedd tramor modern.

26 Yn eithaf aml, gall yr ieithyddion sy'n gwneud cais am swyddi mewn ysgolion nad oes ganddynt lawer o ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor modern o gynnig un iaith dramor fodern yn unig. Mae hyn yn lleihau hyblygrwydd o ran yr amserlen a nifer y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr.

27 Yn 2014-2015, fe wnaeth canolfannau hyfforddiant cychwynnol i athrawon recriwtio hanner y cwota ar y mwyaf o ran athrawon dan hyfforddiant ieithoedd tramor modern a neilltuwyd iddynt gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

**Argymhellion**

**Dylai athrawon ieithoedd tramor modern:**

A1 Gwella ansawdd yr addysgu mewn ieithoedd tramor modern trwy sicrhau eu bod:

- yn cynyddu'r defnydd o'r iaith asesedig fel yr iaith cyfarwyddo ar draws cyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16
- yn helpu dysgwyr i gael amgyffrediad cadarn o reolau ynganu'r iaith y maent yn ei dysgu
- yn helpu dysgwyr i ddefnyddio ystod eang o strategaethau i baratoi'n hyderus ar gyfer arholiadau llafar, fel bod dysgwyr yn datblygu rhuglder llafar ar lefelau yn unol â'u galluoedd
- yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr o bob gallu yn cael eu herio'n llawn ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau iaith creadigol sy'n datblygu eu meistrolaeth o'r iaith
- yn cadw cydbwysedd priodol rhwng addysgu gramadeg a'r pedwar medr iaith, yn enwedig siarad a gwrando
- yn asesu gwaith dysgwyr gan ddefnyddio strategaethau ystyrlon o ran asesu ar gyfer dysgu

A2 Mynychu grwpiau rhwydwaith rhanbarthol a hyfforddiant rhanbarthol, a chymryd rhan ynddynt, i ddatblygu medrau lefel uwch mewn addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern

**Dylai penaethiaid ac uwch arweinwyr:**

A3 Gwella nifer y dysgwyr sy'n astudio o leiaf un iaith dramor fodern ar lefel arholiad trwy adolygu eu trefniadau ar gyfer cynllunio ac amserlennu'r cwricwlwm

A4 Gwneud yn siwr bod eu hathrawon ieithoedd tramor modern yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus 'Dyfodol byd-eang' a gynigir mewn rhanbarthau ac ar eu traws i wella ansawdd dysgu ac addysgu ieithoedd tramor modern

# Teitl: Arfer orau yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau yn y celfyddydau creadigol yn yr ysgolion mwyaf effeithiol

#### Celf a dylunio

1 Mewn celf a dylunio yng nghyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion yn archwilio ystod dda o brosesau dau ddimensiwn. Maent yn ymarfer eu medrau'n annibynnol i gyflawni canlyniadau effeithiol mewn paent, pastelau a phensiliau ac, mewn lleiafrif o ysgolion, wrth wneud printiau. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd arfer dda, nid yw disgyblion yn archwilio amrywiaeth ddigonol o gyfryngau tri dimensiwn a lleiafrif yn unig sy'n defnyddio meddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i greu delweddau digidol.

2 Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn ennill dealltwriaeth dda o resymau pam y mae artistiaid yn gweithio fel y gwnânt a'r bwriadau sydd wrth wraidd eu gwaith. Defnyddiant eu dadansoddiad o waith artistiaid eraill yn ddychmygus i wella'u gwaith eu hunain.

3 Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill meistrolaeth gynyddol ar dechnegau a phrosesau fel y gallant gyfleu eu syniadau yn effeithiol. Mae eu llyfrau braslunio yn archwiliadau personol a bywiog o syniadau a phrosesau. Trwy ymchwilio ac arbrofi, mae gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn fwyfwy gwreiddiol. Maent yn gwella'u medrau lluniadu trwy ymateb yn ddychmygus i dasgau lluniadu arloesol a thrwy archwilio technegau yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mireinio'u syniadau trwy ymchwilio'n drylwyr ac maent yn integreiddio'u hastudiaethau o waith artistiaid eraill mewn ffyrdd dychmygus sy'n dangos lefel uchel o ddealltwriaeth.

#### Drama

4 Yng nghyfnod allweddol 3, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o syniadau mewn perfformio a chonfensiynau amrywiaeth o ffurfiau dramatig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol i lunio darnau syml, perfformiadau byrfyfyr a thablos. Maent yn strwythuro eu perfformiadau i fynegi ystod eang o gysyniadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn archwilio'r defnydd ar symud, ystum, mynegiant yr wyneb, cyswllt llygaid a'r llais gyda brwdfrydedd a medr cynyddol i ddatblygu cymeriadau. Maent yn gweithio'n dda, yn unigol ac mewn grwpiau, i fireinio'u medrau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar a chorfforol yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymarfer ac yn perfformio darnau o ddramâu wedi'u sgriptio gydag ymroddiad. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r Saesneg yn rhy aml i drafod eu syniadau pan fyddant yn gweithio mewn grwpiau.

5 Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion hefyd yn arddangos dealltwriaeth dda o fedrau cyfarwyddwyr a thechnegwyr, ac mae lleiafrif ohonynt yn arbrofi'n ddychmygus gyda sain, y llais a goleuadau i greu awyrgylch.

6 Yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn nodi nodweddion arddulliadol pwysig yng ngwaith ymarferwyr gosod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u cyrff a'u lleisiau'n greadigol gyda rheolaeth, ac yn archwilio symudiadau haniaethol a chynefineg i greu darnau wedi'u dyfeisio sy'n cyfleu syniadau'n effeithiol. Mae'r disgyblion hynny sy'n gweithio gyda'r agweddau technegol ar theatr yn datblygu'u medrau'n dda. Gweithiant yn agos gyda'u cymheiriaid sy'n dilyn y llwybr actio er mwyn gwella'u perfformiadau.

**Cerddoriaeth**

7 Yng nghyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u pwyntiau cychwyn unigol, er bod disgyblion yn cyrraedd Blwyddyn 7 gydag amrywiaeth o brofiadau sy'n ehangach mewn cerddoriaeth nag mewn celf a dylunio neu ddrama. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau perfformio'n dda trwy feistroli repertoire mwyfwy beichus. Trwy ymarfer, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canu ac yn chwarae'n gymwys yn eu rhannau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn archwilio'r elfennau cerddorol, yn dadansoddi amrywiaeth o arddulliau cerddorol ac yn defnyddio technoleg cerddoriaeth yn effeithiol i gyfansoddi darnau byr.

8 Yng nghyfnod allweddol 4, mae mwyafrif o ddisgyblion yn perfformio gyda mynegiant a chywirdeb. Dangosant amgyffrediad sicr o gonfensiynau amrywiaeth fawr o arddulliau cerddorol. Maent yn hunanddisgybledig ac mae ganddynt lawer o gymhelliant i ymarfer, yn annibynnol i sicrhau meistrolaeth dechnegol ac ar y cyd i ddatblygu ymdeimlad o ensemble a pherfformiad. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthuso amrywiaeth o ffurfiau ac arddulliau cerddorol mwyfwy cymhleth yn feirniadol. Maent yn gwrando'n wybodus i gymharu a chyferbynnu gwahanol berfformiadau o'r un darn, gan ddefnyddio ymatebion wedi'u rhesymu'n dda. Fodd bynnag, mewn ychydig ysgolion lle mae disgyblion yn cyflawni'n dda, roedd disgyblion ar eu colled mewn gweithgareddau gwerthuso oherwydd eu medrau llythrennedd.

9 Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn cyfansoddi darnau gyda chryn wreiddioldeb sy'n tynnu ar eu cryfderau eu hunain fel perfformwyr. Mewn llawer o ysgolion llwyddiannus, mae disgyblion yn defnyddio technoleg yn effeithiol iawn i lunio cyfansoddiadau.

**Cyfraniad addysgu a dysgu effeithiol yn y celfyddydau creadigol at les disgyblion**

10 Mae disgyblion yn gwella'u lles trwy brofiadau strwythuredig yn y celfyddydau. Mae'r celfyddydau'n helpu disgyblion i gynyddu eu hyder a'u hunan-barch, gwella'u medrau cymdeithasol a datblygu eu dealltwriaeth o safbwyntiau pobl eraill. Trwy ddysgu yn y celfyddydau, mae llawer o ddisgyblion yn ennill medrau bywyd pwysig, sef dysgu annibynnol, cynllunio a datrys problemau.

11 Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt drwy'r celfyddydau i fynegi eu syniadau eu hunain. Mae disgyblion yn sylwi bod ymarfer cyflwyno'u hymatebion personol yn rhoi mwy o hyder iddynt mewn meysydd eraill o fywyd a gwaith yr ysgol. At hynny, dywed disgyblion fod dathlu eu medrau celfyddydol yn gyhoeddus trwy arddangos a pherfformio wedi cael effaith gadarnhaol tu hwnt ar y ffordd y maent yn ystyried eu hunain a'u dyfodol.

**Safonau yn y celfyddydau creadigol ar draws Cymru**

12 Yng nghyfnod allweddol 3, ar draws Cymru, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 5 neu uwch, mewn celf a dylunio ac mewn cerddoriaeth. Mae cyflawniad disgyblion yn y celfyddydau ychydig yn uwch nag yn y pynciau craidd, sef Saesneg, Cymraeg neu fathemateg.

13 Yng nghyfnod allweddol 4, celf a dylunio yw'r mwyaf poblogaidd o blith pynciau'r celfyddydau, gyda thua 25% o ddisgyblion yn dilyn cwrs TGAU ynddo. Bob blwyddyn, mae oddeutu 9% o ddisgyblion yn dilyn cwrs TGAU drama. Cerddoriaeth yw'r lleiaf poblogaidd o blith pynciau'r celfyddydau ar lefel TGAU, gyda rhyw 8% o ddisgyblion yn dewis yr opsiwn hwn. Yn yr ysgolion hynny â darpariaeth o ansawdd uchel, mae'r niferoedd yn aml yn uwch na'r cyfartaleddau hyn.

14 Mae llawer o ddisgyblion yng Nghymru sy'n dewis astudio TGAU celf a dylunio, cerddoriaeth neu ddrama yn cyflawni gradd A*-C. Mae cyflawniad disgyblion mewn cerddoriaeth yn well na'r cyflawniad mewn celf a dylunio ac mewn drama. Mae cyflawniad disgyblion ym mhynciau'r celfyddydau yng nghyfnod allweddol 4 yn uwch o lawer na'u cyflawniad mewn Saesneg a mathemateg a mymryn yn uwch na'u perfformiad mewn Cymraeg.

15 Mewn nifer bach iawn o ysgolion, mae disgyblion yn cyflawni'n dda ym mhob un o dri phwnc y celfyddydau yng nghyfnod allweddol 4. Mae'n fwy cyffredin i ddeilliannau disgyblion fod yn uwch yn un o bynciau'r celfyddydau. Y rheswm am hyn yw bod llwyddiant yr adrannau hyn yn deillio o arweinyddiaeth gadarn ar y pwnc ac addysgu cyson dda. Yn ogystal, ychydig o gydberthynas sydd rhwng yr ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau a'r ysgolion lle y mae gan ddisgyblion gyflawniad uchel yn y pynciau craidd.

16 Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn ym mhob un o bynciau'r celfyddydau. O'r tri phwnc, mae cyfran uwch o fechgyn yn dewis cerddoriaeth ac mae eu cyflawniad yn well na chyflawniad bechgyn mewn celf a dylunio neu mewn drama.

17 Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) yn cyflawni'n well yn y celfyddydau nag mewn llawer o feysydd pwnc eraill. O dri phwnc y celfyddydau, mae cyfran uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYDd yn dewis dilyn TGAU celf a dylunio yn hytrach na dewis TGAU drama neu gerddoriaeth, ac mae eu cyflawniad yn well. Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd a disgyblion nad ydynt yn gymwys yn llai mewn celf a dylunio nag ydyw mewn drama neu gerddoriaeth, ac yn llawer llai na'r bwlch rhwng y ddwy garfan mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith a mathemateg.

**Profiadau dysgu yn y celfyddydau creadigol yn yr ysgolion mwyaf effeithiol**

18 Yn yr adrannau mwyaf effeithiol, mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn dda iawn yng nghyfnod allweddol 3, sy'n rhoi sylfaen gadarn iddynt ar gyfer llwyddiant yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r adrannau hyn sy'n arddangos arfer dda hefyd yn datblygu cysylltiadau gwerthfawr â'u hysgolion cynradd bwydo, sy'n helpu i bontio rhwng y dysgu yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

19 Mewn llawer o adrannau celf da, darperir ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog, sy'n helpu iddynt wneud y mwyaf o'u galluoedd. Mae'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol trwy waith allgyrsiol yn gysylltiedig ag asiantaethau ac ymarferwyr y celfyddydau. Fodd bynnag, mewn gwersi, nid yw lleiafrif o athrawon yn ymestyn cynnydd disgyblion mwy abl yn ddigon da.

20 Mewn ysgolion ag arfer dda yn y celfyddydau, mae athrawon yn cynllunio'n dda er mwyn datblygu llythrennedd disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, yn enwedig mewn ysgrifennu a llefaredd. Fodd bynnag, nid yw llawer o adrannau yn talu sylw digon da i ddatblygiad medrau rhifedd disgyblion.

21 Mae llawer o adrannau celf da yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau digidol disgyblion. Fodd bynnag, hyn yn oed lle y gwelir arfer dda mewn lleiafrif o ysgolion, nid oes digon o gyfleoedd mewn celf a dylunio ac mewn drama i ddisgyblion gynhyrchu gwaith creadigol gan ddefnyddio cyfryngau digidol.

22 Mewn ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau creadigol, mae amrywiaeth eang o weithgareddau celf allgyrsiol sydd o fudd arbennig i ddisgyblion difreintiedig, nad oes ganddynt bob amser y manteision gartref sydd gan eu cyfoedion mwy breintiedig. Mae llawer o ysgolion yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio mannau ac offer arbenigol y tu allan i wersi, er enghraifft.

23 Mewn bron pob un o'r ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau, mae gan athrawon wybodaeth ragorol am eu pwnc ac mae llawer ohonynt yn ymarferwyr ac yn gyfranogwyr gweithgar yn y celfyddydau. Defnyddiant eu harbenigedd i esbonio a modelu technegau yn hyfedr, ac maent o ddifrif o safbwynt y trylwyredd a'r ddisgyblaeth sy'n hanfodol ar gyfer cael deilliannau da yn y celfyddydau.

24 Yn y rhan fwyaf o ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau creadigol, mae athrawon yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu medrau meddwl beirniadol disgyblion. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i werthuso'u gwaith eu hunain a gwneud cynnydd da. Maent yn cynllunio'n dda i ddisgyblion astudio gwaith ymarferwyr creadigol a chael profiad uniongyrchol o waith creadigol.

**Arweinyddiaeth ar y celfyddydau creadigol yn yr ysgolion mwyaf effeithiol**

25 Ym mhob ysgol lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau creadigol, mae uwch arweinwyr yn rhoi statws uchel i'r celfyddydau. Maent yn cydnabod pwysigrwydd y celfyddydau wrth ddatblygu ethos cadarn yn yr ysgol a'u gwerth o ran hybu amgylchedd dysgu ysgogol a chreadigol i'r disgyblion.

26 Yn yr ysgolion hyn, mae uwch arweinwyr yn cefnogi eu hadrannau i alluogi disgyblion ar bob lefel gallu, gan gynnwys y disgyblion hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio, i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ychydig o'r ysgolion ag arfer dda, ni chaiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei ddefnyddio'n ddigon da i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyflawni'n well yn y celfyddydau.

27 Mae uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn ag arfer dda yn cydnabod bod adrannau'r celfyddydau yn aml yn ffynhonnell arfer ragorol wrth ddatblygu creadigrwydd a medrau meddwl disgyblion. Mae ychydig uwch arweinwyr yn rhannu'r dulliau addysgu hyn yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i wella arfer a deilliannau. Dim ond mewn ychydig ysgolion y mae uwch arweinwyr yn dechrau archwilio'n strwythuredig ddatblygiad dysgu creadigol ar draws yr ysgol i ymateb i adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson 2015).

28 Mae'r holl ysgolion ag arfer dda yn elwa o arweinyddiaeth gadarn ym mhynciau'r celfyddydau. Mae'r arweinwyr canol hyn yn aml yn athrawon da a rhagorol, gyda chryn arbenigedd yn eu pwnc. Maent yn arwain eu timau yn dda ac yn datblygu eu pwnc yn ddynamig.

29 Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr pwnc yn dadansoddi gwaith eu hadrannau'n dda. Fodd bynnag, mewn ychydig ysgolion, nid yw arfarniadau adrannol yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddeilliannau grwpiau o ddisgyblion, nac ar gryfderau a gwendidau addysgu yn yr adran. O ganlyniad, nid yw cynlluniau gweithredu adrannol mewn ychydig adrannau yn ddigon manwl i amlygu meysydd penodol i'w gwella.

30 Mae arweinwyr pwnc mewn llawer o ysgolion ag arfer dda yn y celfyddydau yn datblygu eu harfer trwy weithio fel safonwyr i fyrddau arholi ac mae llawer o athrawon yn y celfyddydau yn elwa o ddiwrnodau hyfforddi'r pwnc sy'n cael eu cynnig gan y byrddau arholi. Fel arall, nid oes digon o gyfleoedd strwythuredig am ddysgu proffesiynol ar gyfer athrawon y celfyddydau yn benodol.

**Argymhellion**

**Dylai ysgolion:**

A1 Ddysgu o'r arfer orau sy'n cael ei disgrifio yn yr adroddiad hwn

A2 Gwneud yn siŵr bod digon o gyfleoedd mewn gwersi i ddisgyblion mwy abl ymestyn eu dysgu

A3 Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, lle y bo'n briodol, mewn gwersi celf

A4 Gwneud yn siŵr bod adrannau celf yn gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd i greu gwaith celf sy'n datblygu cymwyseddau digidol disgyblion

A5 Arfarnu perfformiad disgyblion yn fanwl, ac felly hefyd y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu mewn addysgu yn y celfyddydau, i lywio cynllunio adrannol

A6 Dadansoddi cyfraniad adrannau celf at fedrau disgyblion a datblygu strategaethau ar gyfer dysgu creadigol ar draws yr ysgol

A7 Gwneud defnydd gwell o'u cyllid grant i gefnogi disgyblion difreintiedig yn y celfyddydau creadigol

A8 Datblygu darpariaeth ac arfer yn y celfyddydau er mwyn cyfrif am argymhellion Dyfodol Cynaliadwy

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A9 Ddarparu mwy o gymorth i ysgolion ddatblygu hunanarfarnu effeithiol a chynllunio effeithiol ar gyfer gwella yn y celfyddydau

A10 Cynnig profiadau dysgu proffesiynol i athrawon ac arweinwyr pwnc yn y celfyddydau

A11 Cynorthwyo ysgolion i ddefnyddio cyllid grant yn effeithiol i gefnogi disgyblion difreintiedig a gweithio gydag asiantaethau'r celfyddydau ac ymarferwyr y celfyddydau

A12 Helpu ysgolion i adolygu datblygiad a dyluniad eu cwricwlwm gyda'r nod o fodloni argymhellion Dyfodol Llwyddiannus

# Teitl: Cymedroli asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3: adolygiad o gywirdeb a chysondeb

## Prif ganfyddiadau

1 Mae cymedroli asesiadau athrawon mewn ysgolion yn effeithiol pan fydd digon o dystiolaeth ar gael. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw ystod y dystiolaeth yn cwmpasu holl feysydd y disgrifiwr lefel nac yn dangos tystiolaeth o ddrafftio neu gymorth gan yr athro wrth gwblhau gwaith. Yn yr achosion, hyn, mae ysgolion yn dyfarnu'r lefel er gwaethaf ystod gyfyngedig o dystiolaeth. Pan fydd y dystiolaeth yn canolbwyntio ar fersiynau terfynol neu ddarnau gorau a ddewiswyd, mae hyn yn arwain at chwyddo'r lefelau a gyflawnir.

2 Mewn cymedroli clwstwr, mae'r rhan fwyaf o ysgolion naill ai'n dod â gwaith sy'n dangos fersiwn gadarn neu uwch o lefelau. O ganlyniad, mae cyfarfodydd yn canolbwyntio gormod ar gymedroli lefelau gwaith y mae athrawon yn gwybod eisoes eu bod yn gywir. Mae hyn yn golygu bod clystyrau'n gwastraffu amser yn canolbwyntio ar weithgareddau nad ydynt yn ychwanegu gwerth. Nid oes digon o ffocws yn y cyfarfod cymedroli clwstwr ar drafod gwaith disgyblion sydd ar y ffin rhwng lefelau.

3 Mewn rhai achosion, mae athrawon yn ystyried ystod gyfan gwaith disgybl, gan gynnwys llyfrau gwaith cyfan a drafftiau, yn ystod cyfarfodydd cymedroli yn yr ysgol a chyfarfodydd clwstwr. Mae hyn yn golygu y gall athrawon gael golwg mwy cyfannol sy'n 'gweddu orau' ar safonau'r disgybl, trwy gael samplau o ystod gyfan gwaith y disgybl yn ystod cymedroli. Mae hyn yn cryfhau'r broses gymedroli trwy leihau tuedd anymwybodol o ran defnyddio darnau o waith a ddewiswyd, fel drafftiau terfynol, sy'n creu proffil dysgwr.

4 Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cyfeirio at eu deunyddiau enghreifftiol a'u deunyddiau safoni eu hunain neu at rai Llywodraeth Cymru i wirio eu penderfyniadau yn ystod cyfarfodydd cymedroli mewnol. Yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd cymedroli clwstwr, mae deunyddiau enghreifftiol a deunyddiau safoni ar gael, ond anaml y caiff y deunyddiau hyn eu defnyddio, neu y cyfeirir atynt.

5 Mae bron pob ysgol yn ymgymryd â gwaith asesu ychwanegol i baratoi proffiliau dysgwyr ar gyfer y cyfarfod cymedroli clwstwr. Mae'r rhain yn cynnwys labelu helaeth o ran gwaith dysgwyr, nodi'r dystiolaeth ar gyfer pob elfen o'r disgrifiwr lefel, a pharatoi 'sylwebaethau disgyblion' i esbonio'r lefel a ddyfarnwyd. Er bod yr arfer hon yn ddefnyddiol o ran cryfhau dealltwriaeth athrawon o'r meini prawf ar gyfer lefelau, mae'n aml yn dasg ddiangen ar gyfer cyfarfodydd cymedroli clwstwr, gan fod y proffiliau a gyflwynir yn gyffredinol yn dangos lefel gadarn ac ychydig iawn o anghytuno a geir am y lefelau.

6 Mae adroddiadau clwstwr sy'n dilyn cyfarfodydd cymedroli yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion gweithdrefnol gydag ychydig iawn ohonynt yn nodi camau gweithredu i adolygu a diwygio lefelau proffiliau dysgwyr. Er y byddai llawer o ysgolion yn addasu lefel proffiliau dysgwyr unigol pe baent yn cael cyfarwyddyd gan y clwstwr i wneud hynny, mae graddau'r cytuno a welir mewn cyfarfodydd cymedroli clwstwr yn

cyfyngu ar yr angen am weithredu pellach. Nid yw ysgolion yn adolygu a diwygio lefelau proffiliau dysgwyr ar gyfer gweddill y garfan yn rheolaidd.

7 Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cefnogi'r rhan fwyaf o ysgolion yn dda yn y gweithdrefnau ar gyfer cymedroli. Fodd bynnag, mae rôl cynrychiolwyr awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol mewn cymedroli safonau yn aneglur o ran sicrhau lefelau cyson ar draws clystyrau.

8 Eleni, fe wnaeth cymedroli clwstwr ganolbwyntio ar Gymraeg a Saesneg. Mae ystod y dystiolaeth i gefnogi safonau disgyblion mewn ysgrifennu yn gryfach nag ydyw ar gyfer darllen, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Mewn rhai ysgolion uwchradd, nid oes digon o amrywiaeth na chyfle yng ngwaith disgyblion i asesu'r gwahanol fathau o fedrau darllen, yn enwedig medrau lefel uwch fel cyfosod. Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd, naill ai nid oes digon o dystiolaeth wedi ei chofnodi neu mae tystiolaeth o ansawdd gwael i gefnogi asesiadau athrawon o lafaredd.

**Argymhellion**

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia lleol:**

A1 Ddatblygu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer ysgolion i sicrhau cysondeb yn y barnau ar gyfer llafaredd, digonolrwydd sail y dystiolaeth, cymhwyso'r dull 'gweddu orau' yn well, a chymedroli gwaith sydd ar y ffin rhwng lefelau

A2 Adolygu eu rôl mewn sicrhau safonau cyson ar draws clystyrau, awdurdodau a rhanbarthau

**Dylai ysgolion:**

A3 Ystyried ystod eang o waith disgyblion wrth asesu a chymedroli lefelau

A4 Rhoi ystyriaeth briodol i lefel y cymorth, y prosesau drafftio, effaith marcio athrawon a digonolrwydd y dystiolaeth wrth ddyfarnu lefel derfynol

A5 Canolbwyntio ar waith disgyblion sydd ar ffin is lefelau wrth gymedroli mewn ysgolion ac mewn cyfarfodydd clwstwr

A6 Gwneud yn siŵr bod yr holl lefelau'n cael eu hadolygu a'u haddasu'n briodol ar ôl cymedroli mewnol a chymedroli clwstwr a chyn cyflwyno lefelau terfynol

A7 Cyfeirio at ddeunyddiau safonedig wrth asesu, cymedroli a safoni mewn ysgolion ac mewn cyfarfodydd clwstwr

## Teitl: Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd

### Prif ganfyddiadau

1 Mae cwmpas i bob ysgol wella ac mae angen i rai gwella yn fwy nag eraill. Mae arweinwyr da yn cydnabod yr angen i addasu eu harddulliau arweinyddiaeth a mabwysiadu strategaethau gwahanol yn unol â sefyllfa'r ysgol ar ei thaith wella. Er bod strategaethau gwahanol ar gyfer camau gwahanol, mae rhai tasgau cyffredin hefyd y mae angen i bob ysgol fynd i'r afael â nhw ar bob cam o'u datblygiad.

- Diffinio **gweledigaeth a chyfeiriad strategol** yr ysgol yn glir; mae'r weledigaeth hon yn esblygu wrth i'r ysgol wella
- Sefydlu a chynnal diwylliant lle **gwella safonau a lles** i bob disgybl yw'r brif flaenoriaeth
- Sicrhau mai **gwella addysgu** yw'r broses allweddol sy'n cyfrannu at wella safonau
- Cyflwyno **cwricwlwm** sy'n **bodloni anghenion pob disgybl** yn llawn
- Cynnal ffocws cyson ar wella medrau **llythrennedd a rhifedd** disgyblion, gan gynnwys uwch fedrau meddwl ac ymresymu
- Gwneud yn siŵr fod **datblygiad proffesiynol parhaus** staff yn gwella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau i ddisgyblion
- Gwneud yr holl staff, yn enwedig y rhai sydd mewn rolau rheoli, yn **atebol** am eu meysydd gwaith
- Gwneud yn siŵr fod deilliannau **hunanarfarnu** yn deillio o **dystiolaeth uniongyrchol** ac **wedi'u cysylltu agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol**
- Rhoi dadansoddiadau clir, dealladwy a gonest i **lywodraethwyr** o ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio, a'u hannog i herio tanberfformiad

**Dechrau'r daith**

2 Ym mron pob ysgol lle mae safonau addysgu a dysgu yn anfoddhaol:

- Mae arweinyddiaeth strategol yn wan, mae prosesau gwella ysgol yn aneffeithiol a chaiff adnoddau eu rheoli'n wael
- Yn aml, nid yw trefniadau i reoli perfformiad staff wedi'u datblygu'n ddigonol ac nid ydynt yn arwain at arfer broffesiynol well neu ddeilliannau gwell i ddisgyblion
- Nid yw athrawon yn ymwybodol o'r angen i wella eu harfer eu hunain oherwydd maent yn gweithio ar eu pennau eu hunain
- Nid yw arweinwyr yn nodi agweddau ar arfer broffesiynol y mae angen eu gwella, trwy weithgarwch hunanarfarnu uniongyrchol fel arsylwi gwersi
- Nid yw athrawon yn cael digon o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i fodloni eu hanghenion neu wella ansawdd eu gwaith

3 Er mwyn gwella o fan cychwyn isel, mae angen arweinyddiaeth uniongyrchol ar ysgolion, fel arfer, i bennu disgwyliadau yn ymwneud ag ansawdd y gwaith beunyddiol, yn enwedig ansawdd yr addysgu a dysgu. Yn yr ysgolion y mae angen iddynt wella fwyaf, y pennaeth yw prif ysgogwr sefydlu sylfaen ar gyfer gwella, fel arfer. Mewn llawer o achosion, gwna ysgolion yn yr amgylchiadau hyn newidiadau i'w harweinyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw newid yr uwch arweinyddiaeth yn cynrychioli dewis gorau neu'r unig ddewis i wella ysgolion anfoddhaol bob tro.

4 Lle mae ysgolion wedi llwyddo i wella o fannau cychwyn isel, mae'r arweinwyr yn aml yn dangos y nodweddion canlynol:

- gweledigaeth glir ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol yr ysgol ar y pryd
- medrau, gwybodaeth a phrofiad proffesiynol sydd wedi'u datblygu'n dda i nodi meysydd y mae angen eu gwella
- y gallu i sefydlu'n gyflym fod yr ysgol yn lle ar gyfer addysgu a dysgu, a bod athrawon yno i wella deilliannau i ddisgyblion
- ymrwymiad cryf i gynorthwyo eraill i wella mewn diwylliant o atebolrwydd
- y penderfynoldeb i fynd i'r afael â phroblemau staffio anodd
- disgwyliadau uchel ohonyn nhw'u hunain ac eraill, a'r gallu i fodelu safonau proffesiynol uchel
- dealltwriaeth gadarn o addysgeg addysgol effeithiol ac ymchwil addysgol
- pwerau penderfynu da a'r gallu i flaenoriaethu nodau gwella
- yr awch i roi strwythurau a systemau newydd ar waith sy'n cynorthwyo gwelliant cyflym, y maent yn aml yn eu cyfarwyddo'n bersonol
- y gallu i arfarnu data disgyblion a pherfformiad proffesiynol athrawon
- dealltwriaeth o sut olwg sydd ar addysgu effeithiol
- ffocws ar wella addysgu a dysgu a chodi safonau
- y medrau cyfathrebu i sicrhau bod rhieni a chymuned ehangach yr ysgol yn ymgysylltu â'r ysgol ac yn cynorthwyo'r plant i wneud cynnydd

5 Rhaid i arweinydd yr ysgol, p'un a yw'n newydd i'r swydd neu beidio, ddeall yr angen i fuddsoddi mewn datblygu staff er mwyn iddynt wella ansawdd eu gwaith a chodi safonau i ddisgyblion.

**Gwneud cynnydd**

6 Wrth i ysgolion ddechrau gwella, mae athrawon yn dechrau dwyn staff i gyfrif yn fwy am ansawdd eu gwaith a'r safonau y mae eu disgyblion yn eu cyflawni. Yn aml, mae penaethiaid yn cyflawni hyn drwy:

- gytuno ar gydweledigaeth ac ymdeimlad o bwrpas gyda'r staff, sy'n ymwneud â chodi safonau a disgwyliadau priodol
- pennu rolau a chyfrifoldebau clir mewn strwythur staff sy'n bodloni anghenion yr ysgol, gan gynnwys ystod o swyddi arweinyddiaeth penodol
- sicrhau bod gwella ansawdd yr addysgu yn sylfaenol i sicrhau gwelliant a datblygu dulliau a disgwyliadau ysgol-gyfan cytûn yn ymwneud ag arfer yn yr ystafell ddosbarth
- datblygu prosesau hunanarfarnu sy'n canolbwyntio ar ansawdd addysgu a dysgu
- defnyddio data perfformiad disgyblion i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ar lefel ysgol gyfan, carfanau, grwpiau ac unigolion
- sefydlu systemau rheoli perfformiad sy'n cysylltu â pherfformiad disgyblion a blaenoriaethau ysgol-gyfan cytûn
- sefydlu rhwydweithiau o arfer broffesiynol yn yr ysgol a'r tu hwnt iddi
- dangos enghreifftiau o arfer dda yn yr ysgol a'u dathlu
- herio tanberfformiad yn drylwyr

7 Yn y camau cynnar hyn o wella, mae'r pennaeth yn arwain y rhan fwyaf o fentrau gwella, fel arfer, ac yn pennu'r agenda ar gyfer newid. Fodd bynnag, wrth i wella'r ysgol gyflymu, ceir pwyslais ar ddatblygu gallu arweinyddiaeth drwy'r ysgol gyfan, yn aml, a pharodrwydd cynyddol i ddirprwyo cyfrifoldebau. Mae hyn yn ddatblygiad mewn llawer o ysgolion ar ôl sefydlu strwythur staffio priodol. Yn ystod y cam hwn, mae arweinwyr effeithiol yn aml:

- yn cynnwys staff mewn adolygu gweledigaeth strategol a chyfeiriad yr ysgol
- yn dyrannu rolau arweinyddiaeth penodol i staff eraill sydd mewn swyddi â chyfrifoldeb
- yn sicrhau bod arweinwyr yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt
- yn buddsoddi mewn datblygu arweinwyr, er enghraifft drwy hyfforddi a mentora yn yr ysgol neu gyrsiau allanol, er mwyn iddynt ddatblygu eu medrau eu hunain a chynyddu gallu'r ysgol i wella
- yn sicrhau bod arweinwyr ym mhob swydd yn cyfrannu at wella ansawdd gwaith yr ysgol
- yn hyfforddi arweinwyr ar bob lefel i weithredu, monitro ac adolygu systemau datblygu'r ysgol yn effeithiol
- yn cynnal deialog broffesiynol ag arweinwyr ar bob lefel ac yn monitro gwaith yr arweinwyr hyn yn ofalus
- yn darparu llwyfan i staff ddatblygu a dangos eu medrau arweinyddiaeth, er enghraifft drwy arwain cyfarfodydd staff
- yn cynnwys uwch arweinwyr eraill mewn gweithgarwch hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ysgol
- yn nodi aelodau staff eraill sydd â medrau arweinyddiaeth neu botensial o ran arweinyddiaeth
- yn dechrau sefydlu diwylliant arweinyddiaeth dyheadol drwy amgylchedd lle mae staff ar bob lefel yn dangos dymuniad i arwain ar ryw lefel
- yn datblygu cymunedau dysgu proffesiynol, yn yr ysgol neu'r tu hwnt iddi, i gyflymu gwelliant a chynnwys yr holl staff mewn prosesau gwella

**Adeiladu momentwm**

8 Wrth i'r momentwm ar gyfer gwella ysgol gynyddu, mae penaethiaid yn dechrau mabwysiadu arddull arweinyddiaeth fwy cydweithredol, ynghyd â dull uniongyrchol. Maent yn galluogi uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i ddod yn fwy dylanwadol o ran sicrhau gwelliannau. Mae arweinwyr yn nodi ac yn datblygu aelodau staff eraill sydd â photensial o ran arweinyddiaeth, gan gynnwys y rhai sydd ar gamau cymharol gynnar yn eu gyrfaoedd.

9 Ym mron pob un o ysgolion yr astudiaethau achos, cafodd staff a ddaeth yn arweinwyr hyfforddiant a datblygiad i gyflawni eu rolau, ac wedi cael lefelau uchel o foddhad proffesiynol o'u gwaith. Roeddent yn mwynhau arwain. Wrth i uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ddod yn fwy profiadol a hyderus, caiff eu rolau effaith fwy cadarnhaol ar wella ysgol. Mae'r arweinwyr hyn yn parhau'n atebol iawn i arweinydd uchaf yr ysgol bob amser, ond wrth i daith wella'r ysgol esblygu:

- mae pob arweinydd yn cyfrannu at weledigaeth yr ysgol ar gyfer gwella
- mae sylfaen arweinyddiaeth gref sy'n sicrhau cyfeiriad strategol cyffredin a chysondeb ar draws pob agwedd ar waith yr ysgol

- mae arweinwyr ar bob lefel yn sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn rhwydd bob dydd ac y caiff systemau cytûn eu dilyn, hyd yn oed yn absenoldeb y pennaeth
- mae arweinwr ar bob lefel yn delio’n effeithiol â materion yn ymwneud ag ymddygiad neu drafodaethau â rhieni; er enghraifft, mae uwch arweinwyr, fel y pennaeth, yn hyderus y gall arweinwyr eraill ddelio â’r cyfryw sefyllfaoedd
- mae’r holl arweinwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau’n dda o ran gwella safonau addysgu, dysgu a lles
- mae gan arweinwyr ar bob lefel y medrau i arfarnu effaith eu camau gweithredu ar arfer broffesiynol, safonau a gwella’r ysgol
- mae arweinwyr ar bob lefel yn cyfrannu at waith hunanarfarnu, cynllunio gwelliant, a rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus staff
- mae prosesau hunanarfarnu trylwyr a chynhwysfawr yn tanategu’r holl waith gwella
- caiff staff ar gamau cynnar eu gyrfaoedd gyfleoedd i arwain neu weithio’n agos ag arweinwyr eraill
- mae diwylliant o gynllunio olyniaeth; mae dyrchafu uwch arweinwyr neu arweinwyr canol yn creu cyfleoedd i aelodau staff eraill symud ymlaen yn eu gyrfaoedd ac, yn aml, er nid bob tro, daw dyrchafiadau o’r tu mewn i’r ysgol, oherwydd y mae uwch arweinwyr wedi datblygu unigolion sydd â’r medrau i lenwi uwch rolau
- gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o’r Safonau Arweinyddiaeth Cenedlaethol i osod targedau perfformiad ac i lywio datblygiad proffesiynol
- mae arweinwyr yn defnyddio cyfleoedd dysgu proffesiynol lefel uchel i ddatblygu staff ar bob cam yn eu gyrfa
- daw arweinwyr ar bob lefel yn hyderus wrth ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau arweinyddiaeth
- mae gan arweinwyr ar bob lefel yr ymreolaeth i wneud penderfyniadau er lles disgyblion, er enghraifft yn ymwneud â cheisio partneriaethau ag ysgolion eraill, trefnu hyfforddiant i staff neu gaffael adnoddau
- mae arweinwyr yn creu ethos tîm cydgefnogol
- mae arweinwyr yn dechrau arloesi, er enghraifft trwy gynorthwyo athrawon i fyfyrio ar eu harfer broffesiynol drwy ffilmio gwersi ac arfarnu cynnydd disgyblion
- mae diwylliant o fyfyrio gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, ynghyd ag ymgysylltiad yr holl staff, yn sicrhau cylch gwelliant sy’n cael effaith gadarnhaol ar arfer broffesiynol a deilliannau i ddisgyblion
- mae gan gyrff llywodraethol ddealltwriaeth glir o waith yr ysgol ac maent yn perfformio’n effeithiol fel cyfeillion beirniadol

### Cynnal safonau uchel

10 Mae llawer o’r ysgolion a nodir yn yr adroddiad hwn sy’n cynnal safonau uchel wedi elwa ar gysondeb mewn arweinyddiaeth. Nid yw hynny’n awgrymu bod cyfnodau maith o brifathrawiaeth yn sicrhau llwyddiant nac yn ofynnol ar ei gyfer, sy’n dibynnu ar weledigaeth, awch a medrau penaethiaid unigol neu arweinwyr eraill. Mae’r ysgolion yn yr adroddiad hwn yn datblygu dawn arweinyddiaeth ddofn sydd â hanes cryf o gyflawni gwelliannau mewn sawl agwedd ar eu gwaith. Mae’r nodwedd hon yn arbennig o ddefnyddiol i ymarferwyr ar ddechrau eu gyrfaoedd, oherwydd maent yn elwa ar weithio mewn amgylcheddau cadarnhaol a blaengar ac ochr yn ochr â delfrydau ymddwyn effeithiol.

11 Mae ysgolion sy’n cynnal safonau uchel o addysgu, dysgu a lles dros gyfnodau maith yn dangos yr holl nodweddion a nodwyd yn y camau uchod. Yn ogystal, mae arweinwyr yn ymdrechu i sicrhau bod gan yr ysgolion hyn y nodweddion canlynol:

- mae gweledigaeth sy’n esblygu, sydd â ffocws ar godi safonau ar sail barn yr holl randdeiliaid, sy’n ddyheadol, yn heriol ac yn gyraeddadwy
- mae gan y pennaeth rinweddau arweinyddiaeth hynod effeithiol ac mae’n defnyddio ystod eang o arddulliau arweinyddiaeth y mae’n eu haddasu i fynd i’r afael ag amgylchiadau gwahanol
- mae arweinwyr yn dra ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ar gyfer pob cam yn eu gyrfa
- mae arweinwyr yn cadw safonau ar flaenau eu meddyliau bob amser, ac mae diwylliant lle mae’r holl staff yn cyfrannu’n gyson at wella deilliannau i ddisgyblion
- mae gan uwch arweinwyr hanes profedig o gymryd camau i sicrhau gwelliannau
- mae holl brosesau gwella’r ysgol, gan gynnwys hunanarfarnu, cynllunio gwelliant, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus, wedi’u hymblethu ac yn effeithio ar ei gilydd yn arbennig o dda
- mae arweinwyr yn hyderus ac yn ysbrydoli hyder mewn eraill, gan gynorthwyo staff i arloesi a gwella dysgu disgyblion
- mae arweinwyr yn cynnal gweithdrefnau effeithiol ar gyfer herio tanberfformiad
- mae arweinwyr yn dylanwadu ar waith ysgolion eraill ac yn ei arwain, er enghraifft drwy roi technegau arloesol ar waith neu drwy ddarparu cymorth i’w helpu i wella

12 Yn aml, mae arweinwyr mewn ysgolion sy’n llwyddiannus yn gyson yn dangos eu hymrwymiad i wella’r system addysg yng Nghymru trwy gymryd rhan mewn cymorth rhwng ysgolion. Mae’r trefniadau hyn yn aml o fudd i’r ysgol sy’n darparu’r cymorth, yn ogystal â’r ysgol sy’n ei dderbyn, er enghraifft drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i ddarpar arweinwyr ddatblygu eu medrau mewn amgylchedd gwahanol. Mae gallu mewn ysgolion yng Nghymru ar gyfer gwaith cymorth rhwng ysgolion, ond mae angen i’r gwaith hwn gael ei gynllunio’n ofalus er mwyn sicrhau nad yw’r ysgolion sy’n darparu’r cymorth ychwanegol yn cael eu gorymestyn.

**Ysgolion bach**

13 Mae’r rhan fwyaf o’r ysgolion sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn ysgolion maint canolig neu fawr. Dim ond ychydig ohonynt sy’n fach. Mae’n bwysig cydnabod yr anawsterau y mae ysgolion bach yn eu hwynebu o ran datblygu sylfaen arweinyddiaeth eang. Yn yr ysgolion hyn, y pennaeth sy’n gyfrifol am bob agwedd ar arweinyddiaeth, fel arfer. Mae ychydig o ysgolion ein hastudiaethau achos wedi mabwysiadu dulliau arloesol o ehangu’r sylfaen arweinyddiaeth yn yr amgylchiadau hyn. Er enghraifft, defnyddiodd Ysgol Friog, yng Ngwynedd, arbenigedd llywodraethwyr i gynorthwyo’r ysgol i roi ei chynllun gweithredu ôl-arolygiad ar waith.

14 Mewn ysgolion bach, lle mae gan arweinwyr amser rheoli cyfyngedig, mae penaethiaid effeithiol yn blaenoriaethu’n ofalus sut byddant yn defnyddio’r amser hwn i wella addysgu a safonau. Mae hyn yn golygu, er nad yw eu systemau mor soffistigedig a hollgynhwysfawr â’r rhai mewn ysgolion mwy, gallant fod yn effeithiol o ran codi safonau.

# Teitl: Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol

## Prif ganfyddiadau

1 Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) yn darparu fframwaith defnyddiol i awdurdodau lleol gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod gan y CSCAau y potensial i gefnogi cyflwyno strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru, mae gwendidau yn y modd y caiff llawer o'r cynlluniau eu datblygu a'u rhoi ar waith ar hyn o bryd. Caiff hyn ei amlygu gan y cynnydd araf a wneir yn erbyn llawer o'r targedau yn strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

2 Roedd angen addasiadau helaeth ar lawer o'r CSCAau cychwynnol pan gawsant eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan Weinidogion. Mae hyn yn rhannol am nad oeddent yn cyd-fynd yn ddigon da â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru o ran datblygu'r CSCAau, yn enwedig mewn perthynas â gosod targedau, wedi bod yn wan. Nid yw'r targedau a osodwyd gan awdurdodau lleol, o'u cyfuno, yn cyd-fynd â llawer o ddyheadau strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

3 Mae'r holl awdurdodau lleol wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ar adegau perthnasol wrth ddatblygu eu CSCAau, yn unol â'r arweiniad statudol. Mae effeithiolrwydd yr ymgysylltu hwn yn amrywio'n fawr ac mae'r ymwybyddiaeth gyffredinol o'r CSCAau gan ymarferwyr addysg o fewn awdurdodau lleol yn gyfyngedig.

4 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, mae fforymau addysg cyfrwng Cymraeg yn cyfrannu at ddatblygu a monitro'r CSCAau. Mae aelodaeth y fforymau yn cynnwys rhieni, llywodraethwyr, swyddogion awdurdodau lleol, aelodau etholedig, gweithwyr addysg proffesiynol a chynrychiolwyr o grwpiau sydd â diddordeb penodol mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mewn rhai achosion, mae swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio'r fforymau hyn yn effeithiol, er enghraifft i gynllunio a monitro deilliannau a helpu i osod targedau addas. Mewn rhai awdurdodau lleol, ni chynhelir cyfarfodydd fforymau'n ddigon aml, mae rolau a chyfraniadau disgwyliedig rhanddeiliaid yn aneglur, ac ni chaiff camau gweithredu arfaethedig eu datgan yn ddigon manwl gywir na'u harfarnu'n ddigonol.

5 Mewn awdurdodau lleol lle mae'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau yn y CSCAau yn dda, ceir ymrwymiad cryf gan arweinwyr strategol, aelodau etholedig ac uwch swyddogion i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg. Yn yr awdurdodau lleol hyn, rhoddir llawer o bwyslais ar gyflwyno'r CSCA ac mae gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth strategol. Mewn rhai awdurdodau lleol lle nad yw datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth strategol, cyfrifoldeb swyddogion haen ganol yw'r CSCA yn aml. O'r herwydd, nid ydynt yn rhan amlwg o gynllunio strategol, ni chreffir ar gynnydd yn drylwyr ar lefel ddigon uchel, ac mae cynnydd yn erbyn targedau yn araf.

6 Nid oes gan rai awdurdodau ddulliau systematig o fesur y galw am addysg cyfrwng

Cymraeg. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn tueddu i ymateb yn adweithiol yn hytrach nag yn rhagweithiol i gynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae'n rhaid i ddarpariaeth ddal i fyny â'r galw o ganlyniad.

7 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cymryd camau priodol i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal. Mewn lleiafrif o awdurdodau, mae'r wybodaeth sydd ar gael i rieni yn gyfyngedig ac nid yw'n esbonio'r ddarpariaeth tymor hwy o'r blynyddoedd cynnar i gyfnod allweddol 4.

8 Defnyddir sawl term ar gyfer ysgolion lle defnyddir y Gymraeg yn helaeth fel cyfrwng yr addysgu, fel 'ysgolion Cymraeg', 'ysgolion dwyieithog', 'ysgolion Cymraeg traddodiadol' neu 'ysgolion Cymraeg naturiol'. Nid yw'r termau hyn yn rhoi esboniad digon da o raddau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ni chaiff categoreiddiadau swyddogol Llywodraeth Cymru (gweler atodiad 2) eu defnyddio'n gyson gan ysgolion ac awdurdodau lleol bob amser. Mae hyn yn ei gwneud yn heriol i rieni wneud penderfyniadau gwybodus am addysg eu plant.

9 Mae amrywiad sylweddol yn y pwyslais a roddir gan awdurdodau lleol ar gynyddu cyfran y dysgwyr sy'n sefyll pynciau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg. Lleiafrif o awdurdodau lleol yn unig sy'n ystyried hyn yn flaenoriaeth. Er bod hanner yr awdurdodau lleol yn olrhain nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4, ychydig iawn ohonynt yn unig sy'n gosod targedau ar gyfer ysgolion unigol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n eu dilyn.

10 Mae CSCAau y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn esbonio'r camau gweithredu y maent yn bwriadu eu cymryd i gynyddu canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion. Er bod sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith y tu allan i gwmpas CSCAau awdurdodau lleol, ceir rhai enghreifftiau lle mae partneriaethau effeithiol trwy rwydweithiau llwybrau dysgu 14 -19 yn arwain at ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg ar y cyd yng nghyfnod allweddol 4, ac yn y sector ôl-16 mewn rhai achosion.

11 Mae'r rhan fwyaf o'r wyth awdurdod lleol yr ymwelwyd â nhw wedi cynnal archwiliad priodol o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif ohonynt yn cynnal yr archwiliadau hyn yn ddigon rheolaidd nac yn ddigon manwl i arfarnu darpariaeth o ran ansawdd neu allu. O ganlyniad, nid ydynt yn nodi bylchau mewn darpariaeth nac yn rhoi cynlluniau gwella ar waith mewn modd amserol.

12 Megis dechrau y mae'r gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol mewn perthynas â datblygu'r CSCAau. Mae'r CSCAau yn darparu fframwaith defnyddiol i hwyluso sgyrsiau rhwng swyddogion a hyrwyddo cydweithio o fewn awdurdodau lleol a rhyngddynt. Ceir rhai enghreifftiau o waith da ar draws awdurdodau sy'n cael effaith dda ar ddarpariaeth a safonau.

13 Roedd pob un o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw wedi cynnal archwiliad medrau ieithyddol o'u gweithlu addysgu. Mewn ychydig o achosion yn unig y mae awdurdodau lleol yn ystyried eu capasiti gweithlu cyfrwng Cymraeg presennol, ynghyd â'u heriau o ran recriwtio a chadw, wrth ystyried eu prosiectau trefniadaeth ysgolion a chynllunio darpariaeth tymor hwy.

14 Mae cynnydd yn erbyn y targedau yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn amrywio ar draws y saith deilliant:

**Deilliant 1: Mwy o ddysgwyr saith oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**

Cafodd dros 1,200 yn fwy o ddysgwyr Blwyddyn 2 yn y Cyfnod Sylfaen eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg (medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu – Cymraeg) yn 2015 o gymharu â 2011. Fodd bynnag, gan fod nifer gyffredinol dysgwyr Blwyddyn 2 wedi cynyddu hefyd, mae'r gyfran sy'n cael ei hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros tua 22% (Llywodraeth Cymru, 2011, Llywodraeth Cymru, 2015a). Ni fodlonwyd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015, sef 25% (Llywodraeth Cymru, 2015b).

**Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu medrau iaith wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

Er 2011, mae nifer gyffredinol y dysgwyr ym Mlwyddyn 9 (dysgwyr 14 oed) wedi gostwng. Bu tuedd araf ond cyson i fyny yng nghyfran y dysgwyr ym Mlwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg, o 16.3% yn 2011 i 17.8% yn 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015c)." Ni fodlonwyd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015, sef 19% (Llywodraeth Cymru, 2015b). Ledled Cymru, er gwaethaf y cynnydd bach yng nghyfran y dysgwyr sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg ym Mlwyddyn 9, nid yw tua 13% o ddysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 6 yn parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 9 (Llywodraeth Cymru, 2015b). Mae'r ffigur hwn wedi aros yn sefydlog ar y cyfan er 2011. O ganlyniad, nid yw'r dysgwyr hyn yn datblygu eu medrau Cymraeg hyd eithaf eu gallu.

**Deilliant 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg**

Rhwng 2011 a 2015, bu gostyngiad cyffredinol yng nghyfran y dysgwyr sy'n dilyn dau neu bump o bynciau TGAU lefel 1 neu lefel 2 trwy gyfrwng y Gymraeg (yn ogystal â Chymraeg mamiaith TGAU). Y gostyngiad hwn yw'r mwyaf i ddysgwyr sy'n dilyn pum pwnc ychwanegol. Ni fodlonwyd targedau Llywodraeth Cymru yn 2015 ar gyfer y ddau ddangosydd hyn (Llywodraeth Cymru, 2015b).

**Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gwaith**

Er 2011, mae cyfran y gweithgareddau dysgu y mae dysgwyr 16-19 oed yn ymgymryd â nhw trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog wedi aros yn sefydlog ar y cyfan mewn ysgolion, sef tua 21%. Darlun sefydlog yn bennaf a geir mewn dysgu yn y gwaith hefyd, gyda'r gyfran yn parhau rhwng 3 a 4%. Mewn sefydliadau addysg bellach, mae cyfran y dysgwyr sy'n astudio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog wedi cynyddu tua thri phwynt canran i 8.5% yn 2014 (Llywodraeth Cymru, 2015b). Mae'r targedau hyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015 wedi cael eu bodloni gan ysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith.

**Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr yn meddu ar fedrau Cymraeg lefel uwch**

Mae cyfran y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg mamiaith mewn Safon Uwch a Chymraeg ail iaith mewn Safon Uwch, o gymharu â'r nifer sy'n astudio eu pynciau TGAU unigol, wedi gostwng er 2011. Ni fodlonwyd targedau Llywodraeth Cymru yn 2015 ar gyfer y ddau gymhwyster Safon Uwch. Mae nifer yr ymgeisiadau ar gyfer Cymraeg mamiaith mewn Safon Uwch wedi amrywio rhwng tua 250 a 300 er 2011. Mae nifer yr ymrestriadau ar gyfer Cymraeg ail iaith mewn Safon Uwch wedi gostwng yn sylweddol dros yr un cyfnod (Llywodraeth Cymru, 2015d).

**Deilliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

Ni chesglir unrhyw ddata ar lefel genedlaethol i fesur y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY.

**Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)**

Mae tua thraean o athrawon cofrestredig yng Nghymru yn siarad Cymraeg, ac mae ychydig yn llai o athrawon yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfran yr athrawon sy'n ymuno â'r proffesiwn fel athrawon newydd gymhwyso (ANGau) sy'n siarad Cymraeg ychydig bach yn uwch na'r gyfran hon, yn yr un modd ag y mae cyfran yr athrawon newydd gymhwyso sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (Cyngor y Gweithlu Addysg, 2015).

**Argymhellion**

**Dylai awdurdodau lleol:**

A1 Sicrhau bod y CSCAau yn flaenoriaeth strategol

A2 Cael prosesau systematig ar waith i fesur y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

A3 Gweithio gydag ysgolion i esbonio wrth ddisgyblion a rhieni beth yw manteision addysg cyfrwng Cymraeg a dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg

A4 Gweithio gydag ysgolion i osod targedau i gynyddu cyfran y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n parhau i astudio Cymraeg fel mamiaith ac yn dilyn meysydd sy'n benodol i bwnc trwy gyfrwng y Gymraeg

A5 Gwneud defnydd effeithiol o'u fforymau addysg cyfrwng Cymraeg i helpu i ddatblygu eu CSCA a monitro cynnydd

A6 Arfarnu eu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg i nodi unrhyw fylchau

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 Sicrhau bod y targedau y cytunwyd arnynt yn y CSCAau yn adlewyrchu'r

dyheadau yn eu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg

A8 Sicrhau bod yr holl awdurdodau lleol yn rhoi digon o bwysigrwydd strategol i gyflawni'r targedau yn y CSCAau

A9 Monitro rhoi'r CSCAau ar waith yn drylwyr

# Teitl: Dysgu Oedolion yn y Gymuned

## Prif ganfyddiadau

1 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyfraddau llwyddiant[1] ar gyfer addysg sylfaenol oedolion, TGCh ac SSIE tua 10 pwynt canran islaw cyfraddau cwblhau[2]. Mae hyn oherwydd bod un o bob deg dysgwr sy'n oedolyn, ar gyfartaledd, yn dilyn eu cwrs ac yn ei gwblhau, ond naill ai nid ydynt wedi rhoi cynnig ar y lefel a wnaed, neu nid ydynt wedi llwyddo ynddo.

2 Yn y rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, mae gostyngiadau ariannol wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth a lefelau staffio. Mewn sawl achos, bu'n rhaid i bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned leihau nifer y cyrsiau a nifer y lleoliadau. Mae bron pob partneriaeth wedi gostwng nifer y staff addysgu, gan arwain at golli arbenigedd, yn enwedig ym maes llythrennedd digidol. Mae gostyngiadau mewn staff gweinyddol hefyd yn golygu bod lleoliadau ar agor am lai o oriau. Mae hyn yn cyfyngu ar amserlennu dosbarthiadau gan arwain at ddewis mwy cyfyngedig o gyrsiau ac mae'n golygu bod llawer o ddysgwyr yn gorfod teithio'n bellach i ddosbarthiadau.

3 Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnal ymrwymiad cadarn i ddarparu dysgu i ddysgwyr anodd eu cyrraedd, fel pobl sydd wedi bod yn ddi-waith dros gyfnod hir, rhieni sengl, grwpiau ethnig lleiafrifol, pobl ag anghenion iechyd meddwl ac iechyd corfforol, pobl arunig a phobl oedrannus, a phobl sydd wedi cael profiad gwael o addysg statudol. Mewn llawer achos, mae partneriaethau wedi creu cynghreiriau newydd gyda darparwyr eraill sy'n gallu manteisio ar gyllid, ond nid oes ganddynt y gallu i gyflwyno'r cyrsiau gofynnol.

4 Mae bron pob partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn ymroi i ddarparu cyrsiau 'hamdden' neu les, fel cyrsiau mewn ieithoedd tramor modern, ysgrifennu creadigol, celf, crefft a gwniadwaith, cynnal a chadw cyffredinol yn y cartref, garddio, ioga a dosbarthiadau hyfforddiant ffitrwydd, ar sail adennill costau yn llawn. Fodd bynnag, mae'r trefniant hwn yn arwain at gyfle anghyfartal i ddysgwyr llai cefnog neu ddysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd cael cludiant addas.

5 Mae arweinwyr rhai partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi dwyn perswâd llwyddiannus ar nifer o diwtoriaid a dysgwyr o ddosbarthiadau hirsefydlog i sefydlu clybiau hunangyllido, lle y mae swyddogaeth gymdeithasol y dosbarth wedi dod yr un mor bwysig â'r dysgu ei hun. Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am hurio'r tiwtor a'r lleoliad a threfnu'r dosbarth eu hunain, wedi'i hwyluso drwy'r bartneriaeth. Mae hyn yn lleihau'r angen am gyllid cyhoeddus, tra'n parhau i ddarparu gweithgaredd sy'n cefnogi lles.

[1] Caiff cyfraddau llwyddiant eu cyfrifo trwy rannu nifer y gweithgareddau dysgu (cyrsiau) a ddilynwyd ac yr enillwyd cymhwyster ynddynt gan ddysgwyr â nifer y cyrsiau a derfynwyd (cyrsiau wedi'u cwblhau neu y tynnodd dysgwyr yn ôl ohonynt).

[2] Caiff cyfraddau cwblhau eu cyfrifo yn ôl nifer y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd wedi'i rannu â nifer y gweithgareddau dysgu a derfynwyd.

6 Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi parhau i gymhwyso gweithdrefnau sicrhau ansawdd i gynnal ansawdd addysgu a dysgu. Maent yn defnyddio deilliannau eu gwaith sicrhau ansawdd yn dda i lywio hunanarfarnu a gwneud penderfyniadau am y ffyrdd ymlaen. Fodd bynnag, mae toriadau ariannol ehangach mewn awdurdodau lleol yn golygu bod llawer o uwch arweinwyr yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned wedi newid swydd neu adael y gwasanaeth ac, o ganlyniad, mae llai o staff profiadol i sicrhau ansawdd addysgu a dysgu.

**Argymhellion**

**Dylai partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned:**

- barhau i sicrhau ansawdd addysgu a dysgu i gynnig gwerth am arian i'r holl ddysgwyr sy'n oedolion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

- adolygu ei pholisi a'i strategaeth ariannu ar gyfer y sector dysgu oedolion yn y gymuned

# Teitl:  Cyfranogiad disgyblion: canllaw arfer orau

## Prif ganfyddiadau

1 Mae cyfranogiad disgyblion yn gryf mewn ysgolion sydd â'r nodweddion canlynol:

- Mae cyfranogiad disgyblion a meithrin perthnasoedd cadarnhaol yn rhan annatod o **weledigaeth ac ethos** yr ysgol.  Mae gan arweinwyr a rheolwyr strategaeth glir ar gyfer hyrwyddo cyfranogiad ac ar gyfer meithrin perthnasoedd da.  Maent yn cefnogi ac yn annog cyfranogiad agored a gonest.  Mae arweinwyr yn creu ethos lle mae disgyblion yn parchu hawliau pobl eraill ac yn deall pwysigrwydd amrywiaeth a chydraddoldeb.

- Mae **rolau a strwythurau** clir ar waith ar draws yr ysgol i gofnodi safbwyntiau disgyblion ar ystod eang o faterion yn ymwneud â gwella'r ysgol.  Mae staff yn cymryd safbwyntiau disgyblion o ddifrif ac yn gweithredu yn unol â nhw.  Mae disgyblion, staff a llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chyfranogiad.  Gall arweinwyr ddangos effaith cyfranogiad ar gynllunio gwella ysgol.

- Caiff disgyblion **gyfleoedd** eang **i gymryd rhan** yn yr ysgol a thu hwnt, i gyfrannu at drafodaethau a dylanwadu ar benderfyniadau ar draws ystod eang o faterion sy'n effeithio arnyn nhw.  Mae'r cyfleoedd hyn yn annog disgyblion i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen i fod yn ddinasyddion gweithredol.

- Mae disgyblion a staff yn elwa ar **hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus** o ansawdd da sydd wedi ei dargedu'n dda i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i sicrhau bod llais disgyblion yn cael ei glywed mewn trafodaethau ac wrth wneud penderfyniadau.

2 Pan fydd cyfranogiad disgyblion yn gadarn, mae disgyblion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at wella'r ysgol trwy ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch lles, profiadau dysgu, ac ansawdd yr addysgu, a thrwy helpu i nodi blaenoriaethau'r ysgol yn y dyfodol.  Dywed llawer o ysgolion fod cyfranogiad disgyblion yn cyfrannu at amgylchedd ac ethos ysgol gwell, ac at berthnasoedd gwell rhwng pawb yng nghymuned yr ysgol.

3 Mae manteision i ddisgyblion hefyd mewn cyfranogiad gwell, gan gynnwys iechyd a lles gwell, ymgysylltu ac ymddygiad gwell, a gwelliannau mewn dysgu, cyflawniadau a pherfformiad yn yr ysgol.  Trwy eu hymglymiad gwell mewn gwneud penderfyniadau, mae disgyblion yn datblygu medrau personol a chymdeithasol gwerthfawr, fel gwrando, cyfathrebu, trafod, blaenoriaethu a gweithio gydag eraill.  Maent hefyd yn ennill dealltwriaeth well o hawliau aelodau eraill o gymuned yr ysgol ac o ganlyniadau gweithredoedd sy'n effeithio ar bobl eraill.  Caiff disgyblion eu paratoi'n well i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus a gweithredol Cymru a'r byd, a daw eu hagweddau tuag at ddinasyddiaeth weithredol yn fwy cadarnhaol.

4 Mae bron pob un o’r ysgolion a arolygwyd rhwng Medi 2013 a Gorffennaf 2016 yn cydymffurfio’n llawn â’r Rheoliadau Cyngor Ysgol. Bron ym mhob ysgol, mae’r cyngor ysgol yn gwneud cyfraniad gwerth chweil tuag at wella amgylchedd dysgu’r ysgol. Yn yr ysgolion hyn, ystyrir safbwyntiau disgyblion ac maent yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch bywyd yr ysgol.

5 Mae Estyn yn casglu safbwyntiau disgyblion trwy holiadur a gyhoeddir cyn arolygu pob ysgol, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau nas cynhelir. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod staff yn eu parchu ac yn eu helpu i ddeall pobl eraill a’u parchu. Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chymryd cyfrifoldeb. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo hefyd fod staff yn eu trin yn deg ac yn eu parchu a bod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gwneud newidiadau y maent yn eu hawgrymu. Mae crynodeb o ganfyddiadau’r holiaduron yn Atodiad 1.